

Arolygiad Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Adran Radioleg, Ymddiriedolaeth
Rheoli Gofal Iechyd (HMT), Ysbyty
Sancta Maria

Dyddiad yr arolygiad: 15 a 16
Chwefror 2022

Dyddiad cyhoeddi: 17 Mai 2022

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oeddiad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu

**Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: agic@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk**

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad	6
3.	Yr hyn a ganfuom.....	8
	Ansawdd profiad y claf	9
	Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol	15
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth	30
4.	Beth nesaf?	42
5.	Sut rydym yn arolygu gwasanaethau sy'n defnyddio ymbelydredd ïoneiddio...	44
	Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad.....	46
	Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith	47
	Atodiad C – Cynllun gwella.....	48

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal iechyd o ansawdd da

Ein gwerthoedd

Mae cleifion wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:

- Annibynnol
- Gwrthrychol
- Gofalgar
- Cydweithredol
- Awdurdodol

Ein blaenoriaethau

Drwy ein gwaith, ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig safbwynt annibynnol ar ansawdd y gofal

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant trwy adrodd a rhannu arferion da

Dylanwadu ar bolisiâu a safonau:

Defnyddio'r hyn a welwn i ddylanwadu ar bolisiâu, safonau ac arferion

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) lle rhoddwyd rhybudd o'r Adran Radioleg yn Ymddiriedolaeth Rheoli Gofal Iechyd (HMT), Ysbyty Sancta Maria ar 15 ac 16 Chwefror 2022.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau arolygydd AGIC ac Uwchswyddog Diagnostig Clinigol o Grŵp Cysylltiadau Meddygol Asiantaeth Diogelwch Iechyd y DU, a gyflawnodd swyddogaeth gynghori.

Archwiliodd AGIC sut roedd y gwasanaeth yn gwneud y canlynol:

- Cydymffurfio â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2017
- Bodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru 2011

Ceir manylion pellach am sut rydym yn cynnal arolygiadau o dan y Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) (RhŶi(CM)) yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Arddangosodd tystiolaeth a ddarparwyd trwy gydol yr arolygiad fod cydymffurfedd da â RhYŷ(CM) 2017.

Cafwyd adborth cadarnhaol gan gleifion am eu profiadau wrth fynychu'r adran. Gwelsom fod trefniadau ar waith i hyrwyddo preifatrwydd ac urddas cleifion a chanfuom fod staff yn trin cleifion mewn modd caredig, parchus a phroffesiynol.

Yn gyffredinol, roedd staff yn hapus â lefel y cymorth a ddarperir gan eu rheolwr llinell uniongyrchol ac uwch-reolwyr yn y gwasanaeth.

Roedd trafodaethau â staff trwy gydol ein harolygiad yn rhoi sicrwydd bod trefniadau ar waith i sicrhau bod archwiliadau'n cael eu cynnal yn ddiogel.

Nodwyd rhai meysydd i'w gwella.

Canfuom fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd y ffurflen hunanasesu wedi'i chwblhau i safon uchel, gan arddangos dealltwriaeth o'r rheoliadau a'u gweithrediad mewn ymarfer clinigol
- Roedd yr wybodaeth a ddarparwyd yn dangos bod trefniadau da ar waith i helpu staff i ddiwallu anghenion cyfathrebu cleifion sy'n mynychu'r adran
- Tystiolaeth glir i arddangos bod rhyngweithio ac ymgysylltu da rhwng Arbenigwyr Ffiseg Feddygol¹ a'r adran

¹ Mae Arbenigwr Ffiseg Feddygol yn unigolyn sydd â gwybodaeth, hyfforddiant a phrofiad i weithredu neu roi cyngor ar faterion sy'n ymwneud â ffiseg ymbelydredd sy'n berthnasol i achosion o ddod i gysylltiad ag ymbelydredd yn sgil offer meddygol ym maes radioleg ddiagnostig, meddygaeth niwclear a radiotherapi, y mae awdurdod cymwys yn cydnabod ei gymhwysedd yn hyn o beth. Mae RhYŷ(CM) yn ei gwneud yn ofynnol i bob cyflogwr sy'n gyfrifol am achosion o ddod i gysylltiad ag ymbelydredd yn sgil offer meddygol benodi arbenigwr ffiseg feddygol addas.

- Tystiolaeth glir o optimeiddio, gan gynnwys Lefelau Cyfeirio Diagnostig² lleol ar waith ar gyfer archwiliadau a gyflawnir yn gyffredin, a gwaith parhaol i osod lefelau cyfeirio diagnostig lleol pellach
- Tystiolaeth glir o ddiwylliant cadarnhaol o ran adrodd digwyddiadau
- Roedd cofnodion hyfforddiant, cymhwysedd a hawl deiliaid dyletswydd a adolygwyd yn glir a chynhwysfawr
- Roedd trefniadau priodol wedi'u gweithredu er mwyn atal heintiau yn effeithiol yn yr adran

Gwnaethom argymhell y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Sicrhau bod gwybodaeth am gamau a gymerir o ganlyniad i adborth yn cael ei rhannu â chleifion
- Amlygwyd nifer o feysydd lle roedd gofyn am fanylion ychwanegol mewn dogfennau ysgrifenedig i sicrhau bod yr wybodaeth yn adlewyrchu'r ymarfer gwirioneddol yn fanwl gywir.

² Mae lefelau cyfeirio diagnostig yn arf ymarferol i hyrwyddo optimeiddio. Defnyddir lefelau cyfeirio diagnostig i nodi materion sy'n ymwneud ag offer neu ymarfer trwy amlygu dosau anarferol o uchel o ymbelydredd.

3. Yr hyn a ganfuom

Cefndir y gwasanaeth

Mae'r Ymddiriedolaeth Rheoli Gofal Iechyd (HMT) yn elusen gofrestredig sy'n darparu iechyd a gofal cymdeithasol nid er elw yng Nghymru a Lloegr. Mae'r elusen yn gweithredu nifer o ysbytai gofal llawfeddygol cynlluniedig annibynnol yn ogystal â chartrefi gofal pobl hŷn yn ogystal â chefnogi elusennau eraill o fewn y sector gofal cymdeithasol sydd gyda'i gilydd yn gweithredu 340 o welyau gofal cymdeithasol pellach.

Mae Ysbyty Sancta Maria HMT (yr ysbyty) yn un o'r ddau ysbyty yn HMT ac fe symudon nhw i'w safle presennol ym mis Chwefror 2021. Nod yr ysbyty yw darparu diagnosis a thriniaeth feddygol a llawfeddygol i gleifion.

Dyma rai o'r cyfarpar sydd yn yr Adran Radioleg yn yr ysbyty:

- Uned pelydr-X radiograffeg ddigidol
- Uned pelydr-X radiograffeg ddigidol symudol
- Braich siâp C symudol.

Mae'r adran yn cyflogi radiograffydd goruchwyliol, radiograffydd a radiolegwyr ymgynghorol.

Cafodd yr adran hefyd gyngor a chymorth gan Arbenigwyr Ffiseg Feddygol, a ddarparwyd drwy Gytundeb Lefel Gwasanaeth rhwng yr ysbyty a Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe.

Ansawdd profiad y claf

Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (pan oedd hynny'n briodol) i sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull o arolygu.

Yn gyffredinol, cafwyd adborth cadarnhaol iawn gan y cleifion am eu profiadau wrth fynychu'r adran.

Gwelsom fod trefniadau ar waith i hyrwyddo preifatrwydd ac urddas cleifion a chanfuom fod staff yn trin cleifion mewn modd caredig, parchus a phroffesiynol.

Roedd yr wybodaeth a ddarparwyd yn dangos bod trefniadau da ar waith i helpu staff i ddiwallu anghenion cyfathrebu cleifion sy'n mynychu'r adran.

Er bod y gwasanaeth yn casglu adborth cleifion yn rheolaidd, mae angen iddynt sicrhau bod trefniadau ar waith i rannu'r canlyniadau a hysbysu cleifion am y camau a gymerwyd o ganlyniad i'w hadborth.

Fel rhan o'r broses arolygu, gwnaeth AGIC gyflwyno arolygon ar-lein a phapur i gael barn y cleifion ar y gwasanaeth a ddarperir yn yr adran. Derbyniwyd cyfanswm o 17 o ymatebion. Nid atebodd pob ymatebydd yr holl gwestiynau. Roedd y mwyafrif helaeth o'r ymatebion i'r cwestiynau a ofynnwyd yn dangos profiad cadarnhaol i'r claf ar gyfer defnyddwyr y gwasanaeth hwn.

Gofynnwyd i gleifion yn yr holiadur raddio eu profiad cyffredinol o'r gwasanaeth. Dywedodd 16 o'r 17 a atebodd y cwestiwn fod y gwasanaeth yn 'dda iawn', a dywedodd un ei fod yn 'dda'. Dywedodd y cleifion y canlynol wrthym:

“...Gwasanaeth yn ardderchog”

“Rhagorol”

Gwnaeth AGIC hefyd gyhoeddi arolwg ar-lein i gael barn y staff ar yr adran delweddu diagnostig yn yr ysbyty. Cawsom gyfanswm o 11 o ymatebion gan y staff yn yr ysbyty. Roedd yr ymatebion hyn yn cynnwys radiograffwyr, meddygon ymgynghorol a staff "eraill". Eto, nid atebodd pob ymatebydd yr holl gwestiynau.

Roedd mwyafrif yr ymatebion yn nodi profiad staff cadarnhaol, gyda 73 y cant yn argymhell y sefydliad hwn fel lle i weithio. Roedd barn y staff am brofiad y claf hefyd yn gadarnhaol gyda phawb yn fodlon ar ansawdd y gofal maent yn ei roi i'r cleifion, a phawb yn nodi y byddent yn hapus â safon y gofal a ddarperir gan y sefydliad hwn iddynt hwy eu hunain neu eu teulu.

Cadw'n iach

Roedd nifer o bosteri gwybodaeth wedi'u harddangos ym mannau aros yr adran radioleg. Roedd y rhain yn cynnwys manylion am fanteision a risgiau ymbelydredd yn sgil offer meddygol. Yn ogystal, roedd posteri yn cael eu harddangos drwy'r adran yn cynghori cleifion o bwysigrwydd rhoi gwybod i staff os oedd tebygrwydd y gallent fod yn feichiog. Mae hyn yn bwysig i atal niwed posibl i blentyn heb ei eni ac mae'n ofynnol o dan RhYŷ(CM) i wneud ymholiadau beichiogrwydd, lle bo'n berthnasol.

Roedd yr arwydd croeso i'r adran yn cynnwys manylion am bwysigrwydd gwirio manylion adnabod cleifion, gwirio gwybodaeth glinigol a statws beichiogrwydd cleifion cyn unrhyw driniaeth. Roedd gwybodaeth arall yn cynnwys un arwydd ynghylch sicrhau bod cleifion yn rhydd rhag gwahaniaethu. Roedd gwybodaeth hefyd yn cael ei harddangos am sut y gallai'r claf gael ei ganlyniadau a manylion yn amlinellu sut y gallai'r claf roi adborth ar ei brofiadau.

Ni welsom lawer o daflenni yn ymwneud â chynghori a chymorth gofal iechyd cyffredinol yn cael eu harddangos. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym, fel rhan o'r broses cyn-asesu, fod cleifion yn cael gwybodaeth am ffyrdd iach o fyw, rhoi'r gorau i ysmegu, ymarfer corff, yfed a deiet. Roedd gan yr ysbyty gysylltiadau hefyd â sefydliad colli pwysau a allai gefnogi cleifion a darparu gwybodaeth i gleifion am gymorth alcohol, cyffuriau ac iechyd meddwl. Ni wnaeth yr ysbyty drin cleifion â mynegai màs y corff (BMI)³ uwch na 40.

Gofal ag urddas

Yn ystod ein hamser yn yr adran, gwelsom y staff yn siarad â'r cleifion mewn modd cwrtais, sensitif a phroffesiynol. Ni chlywsom unrhyw sgysiau sensitif a gynhaliwyd yn yr adran yn ystod ein hymweliad. Gwelsom y cleifion yn cael eu symud i ystafelloedd triniaeth a oedd ar gael ar gyfer sgysiau preifat pan oedd angen. Roedd drws yr ystafell pelydr-X ar gau pan oedd yr archwiliadau'n cael

³ Mae BMI yn defnyddio taldra a phwysau i gyfrifo os yw unigolyn yn bwysau iach, o dan bwysau neu dros bwysau. Nid yw'r canlyniad yn fesur perffaith o iechyd cyffredinol.

eu cynnal. Mae drws yr ystafell pelydr-X yn cloi'n awtomatig pan fydd ar gau; roedd mynediad ond yn bosibl wedi hynny gan ddefnyddio cerdyn allwedd ar gyfer mynediad a botwm i adael. Dywedodd 15 o'r 16 o gleifion a atebodd y cwestiwn eu bod yn gallu siarad â staff am eu triniaeth neu archwiliad heb gael eu clywed gan bobl eraill.

Roedd ystafell newid ar gael yn yr adran, wedi'i lleoli yn y man aros. Roedd gan yr ystafell ddau ddrws, a oedd yn caniatáu i'r claf fynd yn syth i mewn i'r ystafell archwilio, ar ôl iddo newid e ddillad. Roedd yna bosteri hefyd yn yr ystafell newid yn ymwneud â phwysigrwydd hysbysu staff am unrhyw faterion yn ymwneud â beichiogrwydd a'r driniaeth a roddwyd. Er na welsom gleifion yn cael eu harchwilio'n uniongyrchol, gwelsom y staff yn cyfarch y cleifion mewn modd cyfeillgar. Dywedodd yr holl gleifion a ymatebodd i'r arolwg eu bod wedi cael eu trin ag urddas a pharch gan y staff yn yr ysbyty a'u bod yn gallu cynnal eu preifatrwydd a'u hurddas eu hunain yn ystod eu hapwyntiadau.

Dywedodd yr holl staff a atebodd y cwestiwn yn yr arolwg fod preifatrwydd ac urddas cleifion yn cael eu cynnal bob amser.

Dywedodd 14 o'r 15 o gleifion a atebodd y cwestiwn eu bod yn teimlo eu bod yn gallu cyrchu'r gofal iechyd cywir ar yr adeg gywir (heb ystyried oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, a rhyw a chyfeiriadedd rhywiol).

Ni nododd yr un o'r 15 claf a atebodd y cwestiwn eu bod wedi wynebu gwahaniaethu wrth gyrchu neu ddefnyddio'r gwasanaeth iechyd.

Gwybodaeth a chydsyniad cleifion

Fel y nodwyd yn flaenorol, gwelsom bosteri yn cael eu harddangos yn yr adran, a oedd yn cynnwys gwybodaeth ynghylch buddion a risgiau'r cysylltiad ag ymbelydredd ïoneiddio sy'n rhan o'r archwiliadau a gynhelir.

Fel rhan o'r broses arolygu, gwnaethom ofyn i'r ysbyty lenwi ffurflen hunanasesu. Dywedodd y ffurflen hunanasesu fod posterï gwybodaeth cleifion yn crynhoi buddion a risgiau'r dulliau sydd ar gael wedi'u harddangos yn amlwg mewn mannau aros cleifion yr adran radioleg. Byddai'r gweithredwr sy'n gwneud y cysylltiad â phelydr-X ar gael i roi rhagor o wybodaeth i'r claf neu ei gynrychiolydd ar gais. Byddai radiolegydd ymgynghorol yn darparu gwybodaeth fanylach pe bai angen. Fodd bynnag, o'r wybodaeth a ddarparwyd, credwn fod angen ystyried yr wybodaeth mae cleifion yn y theatr yn ei chael ar fuddion a risgiau'r cysylltiad ag ymbelydredd a dylid cytuno ar hyn yn ffurfiol a'i ysgrifennu i sicrhau dull cyson o weithredu.

Roedd gan y cyflogwr weithdrefn ysgrifenedig ar waith mewn perthynas â darparu gwybodaeth ddigonol i unigolion gael eu hamlygu ynghylch y buddion a'r risgiau. Diben hyn oedd sicrhau, pryd bynnag y bo'n ymarferol, a chyn i gysylltiad ddigwydd, fod yr unigolyn a oedd i gael cysylltiad ag ymbelydredd neu ei gynrychiolydd yn cael gwybodaeth ddigonol am y buddion a'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r dos ymbelydredd o'r cysylltiad.

Dywedodd yr holl gleifion a atebodd y cwestiwn eu bod yn teimlo'n rhan o unrhyw benderfyniadau a wnaed ynghylch eu gofal a'u bod wedi derbyn gwybodaeth glir i ddeall y risgiau a'r buddion ar gyfer pob un o'u hopsiynau triniaeth. Yn ogystal, dywedodd yr holl gleifion wrthym eu bod wedi cael gwybodaeth am sut i ofalu amdanynt eu hunain yn dilyn eu gweithdrefn neu eu triniaeth. Dywedodd yr holl gleifion, ac eithrio dau, a atebodd y cwestiwn eu bod wedi cael gwybodaeth ysgrifenedig ynghylch pwy i gysylltu â nhw am gyngor ar unrhyw sgîl-ffeithiau o unrhyw driniaethau a gawsant.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r cyflogwr sicrhau bod yr wybodaeth mae cleifion yn y theatr yn ei chael am fuddion a risgiau'r cysylltiad ag ymbelydredd yn cael ei chytuno'n ffurfiol a'i bod ar gael i alluogi staff i roi dull cyson o egluro yn eu hesboniad.

Cyfathrebu'n effeithiol

Cadarnhaodd yr holl gleifion a ymatebodd i'r cwestiwn yn ein harolwg fod y staff wedi gwrandao arnynt yn ystod eu hapwyntiad. Cadarnhaodd y staff y gwnaethom siarad â nhw fod ganddynt fynediad at wasanaethau cymorth cyfathrebu, os oes angen, i gynorthwyo unrhyw gleifion sy'n mynychu'r adran na allant gyfathrebu ar lafar yn Saesneg. Cawsom wybod hefyd bod staff yn gweithio yn yr adran sy'n gallu cyfathrebu mewn ieithoedd eraill, gan gynnwys y Gymraeg. Fodd bynnag, ni welwyd unrhyw fathodynau i adnabod staff oedd yn gallu sgwrsio yn Gymraeg.

Ar ddiwrnod cyntaf ein harolygiad, pwysleisiwyd mai ychydig o hysbysiadau oedd wedi'u harddangos yn yr adran yn cynghori'r cleifion y gallent siarad â'r staff yn Gymraeg, pe baent yn dymuno gwneud hynny. Ychydig iawn o bosteri Cymraeg oedd yna hefyd. Dylai'r ysbyty ystyried arddangos mwy o bosteri dwyieithog. Cadarnhaodd yr holl gleifion a ymatebodd i'n harolwg eu bod yn gallu siarad â'r staff yn yr iaith o'u dewis.

Dywedodd pob claf a atebodd y cwestiwn mai Saesneg oedd eu dewis iaith. Unwaith eto, dywedodd pob claf, ac eithrio un, a atebodd y cwestiwn fod gwybodaeth gofal iechyd ar gael yn eu dewis iaith ac atebodd un 'amherthnasol'.

Roedd dolenni clyw ar gael yn nerbynfa'r adran ac yn yr adran cleifion allanol, lle'r oedd y pelydrau-X yn cael eu cynnal. Mae'r dolenni clyw hyn yn helpu pobl sy'n gwisgo cymhorthion clyw i gyfathrebu â staff.

Gofal amserol

Dywedodd yr holl gleifion a gwblhaodd yr arolwg wrthym ei fod yn 'hawdd iawn' dod o hyd i'w ffordd i'r adran a'i fod yn 'hawdd iawn' neu'n 'weddol hawdd' trefnu apwyntiad ar gyfer eu triniaeth.

Roedd apwyntiadau yn yr adran yn cael eu gwneud ymlaen llaw ac roedd yr ysbyty yn gallu bodloni gofynion y cleifion. Cadarnhaodd y staff fod cleifion yn aros ym mhrif dderbynfa'r ysbyty i ddechrau pan fyddant yn cyrraedd. Yna, cawsant eu galw drwodd i fan aros yr adran pan oedd y staff yn barod ar eu cyfer. Byddai apwyntiadau'n cael eu trefnu ar sail argaeledd staff ac offer. Cadarnhaodd y staff, pe bai unrhyw oedi annisgwyl tra bo cleifion eisoes yn yr adran, y byddent yn cael gwybod ar unwaith. Yn ystod ein hamser yn yr adran, ni welsom unrhyw gleifion yn aros am gyfnodau sylweddol cyn cael eu symud i'r ystafell pelydr-X.

Dywedodd naw o'r deg aelod o staff a atebodd y cwestiwn yn yr arolwg fod ganddynt bob amser neu fel arfer ddigon o ddeunyddiau, cyflenwadau ac offer i wneud eu gwaith, a dywedodd un fod ganddynt weithiau. Dywedodd chwech o'r deg a fynegodd farn eu bod bob amser neu fel arfer yn gallu gwneud awgrymiadau i wella gwaith eu tîm/adran a dywedodd pedwar y gallent weithiau. Dywedodd pump o'r deg a fynegodd farn eu bod bob amser neu fel arfer yn ymwneud â phenderfyniadau ar newidiadau a gyflwynwyd sy'n effeithio ar eu maes gwaith / tîm / adran a dywedodd pump eu bod weithiau. Dywedodd y deg aelod o staff eu bod bob amser neu fel arfer yn fodlon ag ansawdd y gofal maent yn ei roi i gleifion. Dywedodd saith o'r deg a fynegodd farn fod cleifion bob amser neu fel arfer yn rhan o benderfyniadau am eu gofal a theimlai tri nad oedd hyn yn berthnasol iddynt hwy.

Gofal unigol

Ymgysylltu â dinasyddion a'u hadborth

Roedd ffurflenni adborth cleifion ar gael ar fyrddau ym man aros yr adran. Roedd paragraff hefyd wedi'i gynnwys ar arwydd yr adran yn y man aros yn gofyn i gleifion lenwi ffurflen adborth y cleifion yn y man aros neu ar dudalennau cyfryngau cymdeithasol yr ysbyty. Dim ond un cwestiwn oedd y ffurflen adborth yn ei ofyn, sef 'sut ydych chi'n graddio'r gwasanaeth?' ac roedd yn cynnwys blwch

sylwadau. Dylai'r gwasanaeth ystyried ehangu'r ffurflen adborth i gasglu adborth defnyddiol ychwanegol.

Disgrifiodd y staff ac uwch-reolwyr y staff y gwnaethom siarad â nhw y broses sydd ar waith i sicrhau bod adborth rheolaidd yn cael ei gymryd gan gleifion a'r trefniadau i fwydo'r canlyniadau yn ôl i'r staff. Diweddarwyd y canlyniadau ar DATIX⁴. Dywedwyd wrthym hefyd pe bai claf yn rhoi ei fanylion cyswllt fel rhan o unrhyw adborth, y byddai rhywun yn cysylltu ag ef yn uniongyrchol. Roedd trefniadau ar waith i ymateb i unrhyw bryderon llafar a godwyd gan gleifion. Cawsom ein hysbysu bod ceisiadau'n cael eu gwneud, pan fo hynny'n bosibl, i geisio datrys y materion gyda'r claf yn gyflym ac yn effeithlon. Lle nad oedd hyn yn bosibl, roedd cleifion yn cael eu cyfeirio at broses gwyno'r ysbyty.

Dywedodd yr holl staff a fynegodd farn fod adborth profiad cleifion / defnyddwyr gwasanaeth yn cael ei gasglu o fewn eu cyfarwyddiaeth/adran. Dywedodd naw o'r 11 a fynegodd farn eu bod yn cael diweddariadau rheolaidd ar adborth profiad cleifion / defnyddwyr gwasanaeth yn eu hadran ac atebodd dau "ddim yn gwybod". Yn ogystal, dywedodd naw o'r 11 a fynegodd farn fod adborth gan gleifion / defnyddwyr gwasanaeth yn cael ei ddefnyddio i wneud penderfyniadau gwybodus o fewn eu hadran, dywedodd un nad ydyw ac atebodd un "ddim yn gwybod".

Fodd bynnag, ni wnaethom sylwi ar wybodaeth am sut yr oedd y sefydliad wedi dysgu a gwella yn seiliedig ar adborth a dderbyniwyd. Rhaid i'r gwasanaeth sicrhau bod bwrdd tebyg i un "dywedoch chi, gwnaethon ni"⁵ yn cael ei arddangos i hysbysu cleifion am y camau a gymerwyd o ganlyniad i adborth.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r ysbyty sicrhau bod trefniadau ar waith i ddarparu diweddariadau rheolaidd i gleifion ar yr adborth profiad cleifion a dderbyniwyd gan y gwasanaeth, yn ogystal ag unrhyw gamau dilynol a gymerir.

⁴ Yn ogystal â chynnwys modiwl adrodd am ddigwyddiadau, mae DATIX hefyd yn cynnwys modiwl rhybuddion diogelwch, modiwl adborth cleifion, asesiadau risg a risg.

⁵ Mae'n ffordd o ddangos sut mae barn a syniadau pobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau yn cael eu clywed a'u defnyddio i wella gwasanaethau a phrofiadau cleifion.

Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau yn darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Arddangosodd y dystiolaeth a ddarparwyd a thrafodaethau gyda'r staff fod cydymffurfedd cyffredinol â RhYŷ(CM) 2017 yn dda iawn. Roedd gan y staff ymwybyddiaeth dda o'u rolau a'u cyfrifoldebau fel deliad dyletswydd.

Roedd yr wybodaeth a ddarparwyd yn dangos bod trefniadau priodol wedi'u gweithredu gan y gwasanaeth i sicrhau bod modd atal heintiau a dihalogi'n effeithiol yn yr adran.

Roedd trafodaethau â staff trwy gydol ein harolygiad yn rhoi sicrwydd bod trefniadau ar waith i sicrhau bod archwiliadau'n cael eu cynnal yn ddiogel.

Cydymffurfio â'r Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol)

Dyletswyddau'r cyflogwr

Adnabod cleifion

Roedd gweithdrefn ysgrifenedig y cyflogwr wedi'i diweddarau i'r staff allu adnabod cleifion yn gywir cyn iddynt ddod i gysylltiad ag ymbelydredd. Anelodd hyn i adnabod yr unigolyn i ddod i gysylltiad ag ymbelydredd Ïoneiddio yn gywir, yn unol â gofynion RhYŷ(CM) 2017. Roedd y weithdrefn yn nodi'r cwestiynau roedd yn ofynnol i staff eu gofyn i gadarnhau enw llawn, dyddiad geni a chyfeiriad cartref y claf. Roedd y dull hwn yn unol â chanllawiau cyrff proffesiynol cyfredol⁶ ar RhYŷ(CM).

Yn rhan o'r wybodaeth a nodir yn y weithdrefn, roedd y camau y dylai staff eu cymryd pe baent yn dod ar draws gwahanol fathau o senarios gan gynnwys

⁶ https://www.rcr.ac.uk/system/files/publication/field_publication_files/irmer-implications-for-clinical-practice-in-diagnostic-imaging-interventional-radiology-and-nuclear-medicine.pdf

cleifion heb alluedd, cleifion anymwybodol a chleifion na allant gyfathrebu yn Saesneg.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom adolygu sampl o gofnodion cleifion cyfredol ac ôl-weithredol. Roedd pob cofnod a adolygwyd yn rhoi tystiolaeth fod gwiriadau adnabod cleifion wedi cael eu cynnal gan y staff yn unol â'r weithdrefn ysgrifenedig. Cadarnhaodd pob claf a atebodd y cwestiwn ar ein harolwg y gofynnwyd iddynt gadarnhau eu manylion personol cyn cynnal eu gweithdrefn.

Unigolion sydd â'r gallu i gael plant (ymholiadau yn ymwneud â beichiogrwydd)

Roedd gweithdrefn ysgrifenedig y cyflogwr ar waith mewn perthynas â'r broses ar gyfer nodi a oedd unigolyn a oedd o fewn oedran i gael plentyn yn feichiog, neu gallai fod yn feichiog, a hynny cyn cael unrhyw gysylltiadau. Roedd hyn yn anelu i atal ffetws rhag dod i gysylltiad ag ymbelydredd yn ddamweiniol yn ystod archwiliad radiolegol drwy sicrhau bod ymholiadau ynghylch beichiogrwydd yn cael eu gwneud mewn modd priodol a chyson.

Gan ddibynnu ar ymateb yr unigolyn, roedd y weithdrefn yn nodi'r broses y mae'n rhaid i staff ei dilyn. Roedd y manylion yn cynnwys ystod oedran yr unigolion y dylid eu holi am feichiogrwydd, a oedd rhwng 12 a 55 oed a lle gallai'r prif belydryn arbelydru rhannau'r abdomen a'r pelfis. Roedd hyn yn bwysig er mwyn lleihau'r niwed posibl i blentyn heb ei eni o gysylltiad ag ymbelydredd ïoneiddio. Roedd posteri yn cael eu harddangos drwy'r adran yn cynghori cleifion o bwysigrwydd rhoi gwybod i staff os oedd tebygrwydd y gallent fod yn feichiog. Roedd y posteri hyn yn cyfeirio'n gywir at unigolion sydd â'r gallu i gael plant. Fodd bynnag, roedd y weithdrefn, y ffurflen atgyfeirio a'r polisi i gyd yn cael eu cyfeirio at gleifion benywaidd. Mae angen newid y dogfennau hyn i ystyried amrywiaeth rhywedd y cleifion a chynnwys yr wybodaeth a welir yn y poster perthnasol sy'n cael ei arddangos.

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn gallu disgrifio eu cyfrifoldebau o ran yr ymholiadau beichiogrwydd, a oedd yn cynnwys yr angen i ystyried unigolion sydd â'r gallu i gael plant.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r cyflogwr sicrhau bod gweithdrefn y cyflogwr yn cael ei diweddarau i gyfeirio at unigolion sydd â'r gallu i gael plant yn hytrach na benywod.

Achosion o gysylltiad ag ymbelydredd yn sgil delweddu anfeddygol

Roedd gweithdrefn gyfredol y cyflogwr wedi'i sefydlu a oedd yn manylu ar yr achosion o gysylltiad ag ymbelydredd yn sgil delweddu anfeddygol. Achosion o

gysylltiad ag ymbelydredd yw'r rhain nad ydynt yn rhoi budd iechyd uniongyrchol i'r unigolyn sy'n cael y cysylltiad ag ymbelydredd. Maent yn cynnwys achosion o gysylltiad ag ymbelydredd at ddibenion yswiriant neu ymglyfreitha a gyflawnir gan yr adran radioleg. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn gallu disgrifio'r mathau o ddelweddu anfeddygol a oedd yn digwydd a'r weithdrefn a ddilynwyd, gan gynnwys y cyfiawnhad a'r awdurdodiad angenrheidiol. Byddai atgyferiadau ar gyfer achosion o gysylltiad ag ymbelydredd o'r fath ond yn cael eu derbyn gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol cofrestredig sydd â hawliau atgyfeirio. Lle bo'r cais gan gyfreithiwr, y radiolegydd ymgynghorol a dderbyniodd y cais fyddai'r atgyfeiriwr ar gyfer y cysylltiad ag ymbelydredd. Byddai radiolegydd ymgynghorol hefyd yn gweithredu fel ymarferydd ar gyfer pob datguddiad o'r fath.

Canllawiau atgyfeirio

Diffiniwyd cyfrifoldebau'r atgyfeirwyr yng ngweithdrefnau'r cyflogwr. Roedd y canllawiau atgyfeirio a ddefnyddiwyd yn seiliedig ar yr wythfed argraffiad o gyhoeddiad iRefer⁷ Coleg Brenhinol y Radiolegwyr. Dywedwyd wrthym fod mynediad at iRefer ar gael i bob atgyfeiriwr i gefnogi cydymffurfedd. Yn ogystal, darparwyd taflen ar gyfrifoldebau atgyfeirwyr o dan RhYŷ(CM) ar gyfer atgyfeirwyr ac mae'n cynnwys dolen i ganllawiau atgyfeirio.

Mae ymarferwyr meddygol sydd wedi'u cofrestru â'r Cyngor Meddygol Cyffredinol yn grŵp sydd â hawl gan Bennaeth y Gwasanaethau Clinigol i wneud atgyfeiriad. Roedd gweithdrefn y cyflogwr hefyd yn cyfeirio at bob ymarferydd meddygol cofrestredig (gan gynnwys meddygon teulu) a oedd â hawl i atgyfeirio ar gyfer pob archwiliad diagnostig gan Bennaeth y Gwasanaethau Clinigol. Nid yw'r ysbyty yn derbyn atgyfeiriadau gan atgyfeirwyr anfeddygol.

Cadarnhaodd uwch-reolwyr fod gwybodaeth ymwybyddiaeth atgyfeirio yn cael ei darparu ar ffurf taflen ar gyfrifoldebau atgyfeirwyr o dan RhYŷ(CM) a oedd hefyd yn cynnwys dolen i ganllawiau atgyfeirio. Dywedwyd wrthym fod ffurflenni atgyfeirio yn cael eu harchwilio i weld a ydynt yn cydymffurfio â RhYŷ(CM). Yn ogystal, roedd y ffurflenni atgyfeirio nad oeddent yn cydymffurfio yn cael eu dychwelyd at atgyfeirwyr. Lle na ddarparwyd digon o wybodaeth glinigol gan yr atgyfeiriwr, byddai'r ymarferydd yn trefnu i'r ffurflen atgyfeirio gael ei dychwelyd, gan nodi'r wybodaeth ychwanegol yr oedd ei hangen. Yn achos atgyfeiriadau brys, byddai'r ymarferydd yn trefnu i gysylltu â'r atgyfeiriwr, i gael yr wybodaeth berthnasol. Cawsom wybod hefyd y gellir cael mynediad at iRefer trwy dudalen

⁷ <https://www.rcr.ac.uk/clinical-radiology/being-consultant/rcr-referral-guidelines/about-irefer>

fewnwyd y bwrdd iechyd a gellid ei gyrchu gan ddefnyddio unrhyw system TG y bwrdd iechyd.

Roedd gweithdrefn ysgrifenedig cyflogwr ar waith yn amlinellu'r broses atgyfeirio i'r staff ei dilyn. Pwrpas y ddogfen hon oedd rhoi arweiniad ar wneud atgyfeiriad am gysylltiad meddygol ac o ganlyniad i leihau nifer yr atgyfeiriadau a wrthodwyd gan yr ymarferydd. Rhaid i'r ffurflen atgyfeirio gynnwys y manylion claf canlynol; enw llawn, cyfeiriad, dyddiad geni a rhif ysbyty.

Yn y ffurflen hunanasesu a ddychwelwyd gan yr ysbyty ac o siarad â staff, fe ddisgrifiwyd y broses ar gyfer canslo atgyfeiriadau. Dywedwyd wrthym pan oedd atgyfeiriad yn cael ei ganslo, bod ffurflen yn cael ei hanfon yn ôl at yr atgyfeiriwr a oedd yn nodi'r unigolyn a oedd yn gyfrifol am ganslo'r atgyfeiriad e.e. claf, atgyfeiriwr neu radiograffydd, neu radiolegydd a darparu rheswm pam fod yr atgyfeiriad wedi'i ganslo. Daw'r rhan fwyaf o atgyfeiriadau gan feddygon ymgynghorol mewnol ac fe'u dychwelwyd hefyd gan ddefnyddio'r broses a ddisgrifiwyd uchod. Os oedd yr atgyfeiriad gan feddyg teulu, byddent yn ffonio i ganslo'r cais.

Nid oedd gweithdrefn y cyflogwr ar gyfer hawl ac adnabod atgyfeirwyr, ymarferwyr a gweithredwyr yn cynnwys Arbenigwyr Ffiseg Feddygol fel gweithredwyr yn y tabl a restrir. Mae angen i Arbenigwyr Ffiseg Feddygol fod â hawl fel gweithredwyr a'u cynnwys yn y tabl perthnasol.

Dangosodd gwiriad o sampl o atgyfeiriadau cyfredol ac ôl-weithredol fod y dogfennau'n cydymffurfio â gofynion RhYI(CM) ac yn bodloni'r holl gwestiynau ar y ffurflen atgyfeirio.

Dywedodd uwch-staff y gwnaethom siarad â nhw fod symud i safle'r ysbyty newydd hefyd yn rhoi'r cyfle i sefydlu systemau mwy cadarn fel ei gwneud yn ofynnol i ffurflenni atgyfeirio mewn theatrau gael eu llenwi'n gywir.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r cyflogwr sicrhau bod gan Arbenigwyr Ffiseg Feddygol hawl fel gweithredwyr a'u hychwanegu at dabl gweithdrefnau'r cyflogwr ar gyfer hawl.

Dyletswyddau ymarferydd, gweithredwr ac atgyfeiriwr

Roedd gan y cyflogwr system ar waith i nodi gwahanol rolau RhYŷ(CM) y gweithwyr proffesiynol a oedd yn rhan o'r gwaith atgyfeirio, cyfiawnhau⁸ ac awdurdodi a'r gwaith o ddarparu cysylltiadau ag ymbelydredd yn sgil radiotherapi i gleifion. Roedd polisi'r ysbyty ar ddiogelwch ymbelydredd i'oneiddio yn nodi'r rolau a chyfrifoldebau penodol yn unol â RhYŷ(CM), sef atgyfeiriwr,⁹ ymarferydd¹⁰ a gweithredwr¹¹ (y'u gelwir yn ddeiliaid dyletswydd). Roedd y polisi yn cynnwys manylion y gofynion oedd rhaid eu bodloni cyn y gellid rhoi hawl ffurfiol i unigolyn fod yn ddeiliad dyletswydd, ynghyd â gofynion hyfforddiant ar gyfer rolau deiliaid dyletswydd sydd newydd eu penodi.

O adolygu'r ffurflen hunanasesu a thrwy siarad ag uwch-staff, fe'n hysbyswyd am y broses ar gyfer y rhaglenni sefydlu / hyfforddi sydd ar waith ar gyfer yr holl ddeiliaid dyletswydd newydd eu penodi o dan RhYŷ(CM). Roedd hyn yn cynnwys y broses ar gyfer radiograffwyr a radiolegwyr.

Fe wnaethom adolygu sampl o gofnodion hyfforddiant, cymhwysedd a hawl deiliaid dyletswydd a chanfod eu bod mewn trefn. Roedd systemau ar waith hefyd i fonitro cydymffurfedd â hyfforddiant. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw hefyd yn dangos ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'u rolau deiliad dyletswydd o dan RhYŷ(CM) 2017.

Disgrifiodd yr uwch-reolwyr y trefniadau ar gyfer hysbysu staff o unrhyw newidiadau i bolisïau a gweithdrefnau. Yn dilyn unrhyw ddiwygiadau, roedd y ddogfen wedi'i diweddarau yn cael ei rhannu gyda staff perthnasol trwy hysbysiad e-bost a thrwy gynnal sesiwn frifio i'r staff. Wedyn, roedd rhaid i'r staff lofnodi i gadarnhau eu bod wedi darllen a deall y ddogfen. Dywedwyd wrthym fod unrhyw

⁸ Cyfiawnhau yw'r broses o bwysu a mesur buddion disgwylidig cysylltiad ag ymbelydredd yn erbyn yr niwed posibl o ddos cysylltidig y cysylltiad ag ymbelydredd.

⁹ O dan RhYŷ(CM), mae atgyfeiriwr yn weithiwr gofal iechyd proffesiynol cofrestredig sydd â hawl, yn unol â gweithdrefnau'r cyflogwr, i atgyfeirio unigolion i ddod i gysylltiad ag ymbelydredd yn sgil offer meddygol.

¹⁰ O dan RhYŷ(CM), mae ymarferydd yn weithiwr gofal iechyd proffesiynol cofrestredig sydd â hawl, yn unol â gweithdrefnau'r cyflogwr, i gymryd cyfrifoldeb am achos unigol o ddod i gysylltiad ag ymbelydredd yn sgil offer meddygol. Cyfiawnhau achosion o gysylltiadau ag ymbelydredd yn sgil offer meddygol yw prif swyddogaeth yr ymarferydd.

¹¹ O dan RhYŷ(CM), mae gweithredwr yn unrhyw unigolyn sydd â'r hawl, yn unol â gweithdrefnau'r cyflogwr, i gyflawni'r agweddau ymarferol ar gynnal achos o ddod i gysylltiad ag ymbelydredd yn sgil offer meddygol.

newidiadau yn cael eu trafod mewn cyfarfodydd staff. Cadarnhaodd staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn gallu cael mynediad at fersiynau electronig o'r polisïau a'r gweithdrefnau pan fydd angen.

Cyfiawnhad ar gyfer achosion unigol o ddod i gysylltiad ag ymbelydredd yn sgil offer meddygol

Roedd gan y cyflogwr weithdrefn ysgrifenedig ar waith ar gyfer cyfiawnhau ac awdurdodi cysylltiadau meddygol a gynhelir yn yr adran. Roedd y weithdrefn hon yn amlinellu'r camau gofynnol roedd rhaid eu cymryd gan y staff i sicrhau bod yr holl archwiliadau sy'n cynnwys ymbelydredd ïoneiddio yn cael eu cyfiawnhau a'u hawdurdodi cyn i'r weithdrefn gael ei chynnal. Roedd gan y staff y gwnaethom siarad â nhw ddealltwriaeth dda o'r broses gyfiawnhau a'r broses awdurdodi yr oedd angen ei dilyn.

Roedd rhaid cyfiawnhau ac awdurdodi pob achos o gysylltiad ag ymbelydredd yn sgil offer meddygol i ofalwyr a chysurwyr hefyd. Roedd gweithdrefn y cyflogwr ar waith a oedd â'r nod o egluro'r broses sy'n ymwneud â chyfiawnhau achosion o gysylltiad ag ymbelydredd sy'n ymwneud â gofalwyr a chysurwyr. Roedd hyn yn cynnwys rhoi digon o wybodaeth i'r unigolyn ynghylch y buddion a'r risgiau, er mwyn sicrhau ei fod yn cymryd rhan o'i wirfodd ac yn fodlon gwneud hynny. Os bernid bod yr unigolyn o fewn oedran i gael plant, byddai ymholiad beichiogrwydd hefyd yn cael ei wneud. Ni fyddai unrhyw unigolyn yn cael cyflawni'r rôl gofalwr a chysurwr hon pe bai, neu os yw'n bosibl ei bod yn feichiog neu'n methu â deall yr wybodaeth / cyfarwyddiadau a ddarparwyd iddynt. Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw mai dim ond i gefnogi cleifion â phroblemau symudedd neu anawsterau dysgu y defnyddiwyd gofalwyr a chysurwyr.

Nid oedd gweithdrefn y cyflogwr a oedd yn ymwneud â gofalwyr a chysurwyr a'r ffurflen gydsynio a oedd yn cyd-fynd, yn cynnwys tystiolaeth bod y cofnod o'r gwiriad beichiogrwydd wedi'i wneud gyda'r gofalwr a'r cysurwr. Dylai fod tystiolaeth ysgrifenedig bod y gwiriad beichiogrwydd wedi'i gynnal, yn ogystal â chyfathrebu gwybodaeth am fuddion a risgiau.

Yn ogystal, roedd gweithdrefn y cyflogwr yn nodi er mwyn sicrhau nad oedd yr un unigolyn yn gweithredu fel gofalwr a chysurwr dro ar ôl tro ac yn cael achosion o gysylltiad ag ymbelydredd lluosog; gosododd yr ysbyty gyfyngiad dos blyneddol o lai nag un Sievert (Sv)¹² ar gyfer unrhyw unigolyn. Nododd y ffurflen hunanasesu ymhellach fod asesiad risg wedi nodi ei bod yn annhebygol iawn yr

¹² Mae'r sievert (symbol: Sv) yn uned ddeilliedig o ddos ymbelydredd ïoneiddio yn y System Ryngwladol o Unedau (SI) ac mae'n fesur o effaith iechyd lefelau isel o ymbelydredd ïoneiddio ar y corff dynol.

eid y tu hwnt i gyfyngiad y dos ac nad oedd angen monitro dosau gofalwyr a chysurwyr yn unigol yn yr ysbyty.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r cyflogwr sicrhau bod gweithdrefn y cyflogwr yn cael ei newid i adlewyrchu'r angen i gofnodi tystiolaeth bod gwiriad yn cael ei wneud o unigolion sydd â'r gallu i gael plant ar y ffurflen gydsynio.

Optimeiddio

Roedd trefniadau ar waith ar gyfer optimeiddio¹³ cysylltiadau ag ymbelydredd. Gwelsom fod gweithdrefn y cyflogwr yn cyfeirio at warchod cyswllt cleifion¹⁴ a chanllawiau newydd Sefydliad Radioleg Prydain (BIR) ar sut i'w ddefnyddio. Fodd bynnag, er bod yr uwch-aelodau o staff y gwnaethom siarad â nhw wedi nodi na ddefnyddir gwarchodaeth, cyfeiriodd un aelod o staff at ddefnyddio gwarchodaeth ar gyfer cleifion beichiog. Dylid ystyried darparu hyfforddiant pellach i staff ynghylch pryd i ddefnyddio a phryd i beidio â defnyddio dulliau gwarchod cyswllt cleifion.

Dywedwyd wrthym hefyd fod yr Arbenigwyr Ffiseg Feddygol perthnasol yn darparu cyngor fel mater o drefn ac yn cyfrannu at optimeiddio achosion o gysylltiad ag ymbelydredd gan gynnwys profion derbyn a sicrhau ansawdd offer pelydr-X wedi'i amserlennu; cyfrannu at sefydlu ac adolygu gweithdrefnau'r cyflogwr; ac archwiliad dos cleifion. Gall hyn arwain at argymhellion i optimeiddio protocolau archwilio penodol. Gwneir hyn i sicrhau bod cysylltiadau ag ymbelydredd mor isel ag sy'n rhesymol ymarferol.

Lefelau cyfeirio diagnostig

Roedd gweithdrefn ysgrifenedig cyflogwr ar waith ar gyfer defnyddio lefelau cyfeirio diagnostig. Roedd y weithdrefn yn nodi y byddai'r Arbenigwr Ffiseg Feddygol yn cynnal archwiliad dos cleifion, yn cymharu canlyniadau â lefelau cyfeirio diagnostig sefydledig, ac yn cyhoeddi rhestr i'r radiograffydd goruchwyliol o leiaf unwaith bob tair blynedd. Byddai lefelau cyfeirio diagnostig yn cael eu

¹³ Mae optimeiddio yn cyfeirio at y broses lle mae dosau unigol yn cael eu cadw mor isel ag sy'n rhesymol ymarferol.

¹⁴ Mae gwarchodaeth, yn gyffredinol ar ffurf rwber plwm, a osodir yn uniongyrchol ar gleifion wedi'i hymarfer ers blyneddau lawer i leihau'r dos i organau hanfodol. Fodd bynnag, mae rhai astudiaethau wedi cwestiynu effeithiolrwydd defnyddio gwarchodaeth o'r fath.

gosod i adlewyrchu arferion lleol, demograffeg cleifion ac offer. Roedd lefelau cyfeirio diagnostig yn cael eu harddangos yn yr ardal reoli i radiograffwyr gyfeirio atynt. Roedd lefelau cyfeirio diagnostig lleol, lle y'u gosodwyd, naill ai ar gyfraddau lefelau cyfeirio diagnostig cenedlaethol neu'n is na hwy ar gyfer yr ystafell lle y cynhaliwyd archwiliad dos cleifion. Dywedwyd wrthym, oherwydd y niferoedd isel o ddatguddiadau a gymerwyd ar gyfer rhai archwiliadau, fod lefelau cyfeirio diagnostig lleol yn cael eu mabwysiadu o lefelau cyfeirio diagnostig cenedlaethol, pan oeddent ar gael.

Byddai cyfraddau lefelau cyfeirio diagnostig sy'n gyson uwch yn cael eu trafod gyda'r Arbenigwr Ffiseg Feddygol a'u hadrodd ar y system rheoli risg o'r enw Datix. Roedd cofnod papur hefyd ar gyfer adrodd yn yr adran. Roedd system ar waith i sicrhau bod gweithredwyr yn cofnodi achosion lle mae'r dos ar gyfer archwiliad ar glaf maint cyfartalog yn mynd y tu hwnt i'r lefelau cyfeirio diagnostig yn gyson heb eglurhad amlwg, megis maint y claf neu gymhlethdod yr archwiliad. Rhannwyd canfyddiadau'r archwiliad dos mewn cyfarfodydd adrannol a'r grŵp amddiffyn rhag ymbelydredd.

Gwerthusiad clinigol

Roedd gweithdrefn y cyflogwr ar waith a oedd yn amlinellu'r trefniadau ar gyfer gwerthusiadau clinigol¹⁵ o weithdrefnau dod i gysylltiad ag ymbelydredd yn sgil offer meddygol a gynhelir yn yr adran. Nod y weithdrefn oedd sicrhau bod gwerthusiad clinigol wedi'i ddogfennu ar gyfer pob archwiliad sy'n deillio o gysylltiad ag ymbelydredd yn sgil offer meddygol, a oedd ar gael i'r atgyfeiriwr neu staff perthnasol eraill a oedd yn ymwneud â gofal y claf hwnnw. Roedd y weithdrefn yn nodi bod rhaid i radiolegydd adrodd am bob archwiliad pelydr-X oni bai bod y ddyletswydd wedi'i dirprwyo drwy gytundeb i adran arall, er enghraifft, sgrinio mewn theatrau. Byddai adroddiad gwerthuso ysgrifenedig yn cael ei ddarparu ar gyfer yr atgyfeiriwr a'i gyfrifoldeb oedd sicrhau bod yr adroddiad yn cael ei ffeilio yn nodiadau meddygol y claf.

Dywedodd uwch-staff y gwnaethom siarad â nhw, o ran gwaith y GIG a wneir yn yr ysbyty, y byddai'r gwerthusiad clinigol yn cael ei anfon yn ôl at y bwrdd iechyd atgyfeirio drwy'r porth cyfnewid delweddau. Byddai Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe yn cwblhau'r protocol ar yr atgyfeiriad gan fod ganddo'r un protocolau a radiolegwyr.

¹⁵ Mae gwerthusiadau clinigol yn bwysig i helpu i lywio cam nesaf gofal a thriniaeth claf.

Cyfarpar: dyletswyddau cyffredinol y cyflogwr

Roedd gan y cyflogwr stocrestr o'r cyfarpar yn yr adran. Roedd y stocrestr yn cynnwys yr wybodaeth sy'n ofynnol o dan RhYI(CM) 2017, gan gynnwys enw'r gwneuthurwr, rhif model, rhif cyfresol, blwyddyn cynhyrchu a blwyddyn gosod.

Roedd gweithdrefn ysgrifenedig y cyflogwr wedi'i sefydlu ar gyfer y rhaglen sicrhau ansawdd yn ymwneud â RhYI(CM) a oedd yn cynnwys yr angen i sicrhau bod offer pelydr-X yn destun rhaglen sicrhau ansawdd. Byddai sicrhau ansawdd offer yn cynnwys profi offer cyn y defnydd clinigol cyntaf, profion rheolaidd a phrofion ychwanegol yn dilyn unrhyw newid sylweddol a allai effeithio ar ddos y claf. Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys y tiwb pelydr-X newydd / derbynnydd delwedd newydd neu ddiweddariad mawr o'r feddalwedd, hefyd ar gyfer profi offer arferol a gynhelir yn rheolaidd neu ar ôl gwasanaethu / atgyweirio. Cawsom y rhaglen sicrhau ansawdd ar gyfer y tair eitem o offer pelydr-X yn yr ysbyty.

Roedd y weithdrefn yn nodi mai Pennaeth y Gwasanaethau Clinigol / Radiograffydd Goruchwyliol, gyda chefnogaeth Arbenigwr Ffiseg Feddygol priodol, oedd yn gyfrifol am sicrhau bod rhaglen sicrhau ansawdd offer addas ar waith. Byddai'r Radiograffydd Goruchwyliol yn sicrhau bod rhaglen sicrhau ansawdd ar waith ar gyfer yr holl offer delweddu a ddefnyddir yn yr adran. Byddai Arbenigwr Ffiseg Feddygol priodol hefyd yn rhan o'r broses hon.

Symudodd yr ysbyty leoliad ym mis Chwefror 2021 o'i safle gwreiddiol ar un ochr Abertawe i'w safle presennol. Prynwyd offer newydd cyn symud. Roedd yr Arbenigwr Ffiseg Feddygol yn ymwneud â dewis a chaffael yr offer newydd a chafodd ei ddewis i sicrhau bod ganddo'r dechnoleg ddiweddaraf. Prynwyd yr offer tua 12 mis cyn i'r safle newydd agor. Roedd yr offer wedi'i gomisiynu ac yn cael ei ddefnyddio'n glinigol cyn symud ac yn cael ei wirio eto pan gafodd ei drosglwyddo i'r safle presennol. Dywedwyd wrthym fod yr Arbenigwr Ffiseg Feddygol ar gael i roi cyngor ar ddyluniad gosodiadau a manyleb dechnegol ar gyfer offer newydd yn ôl yr angen. Roedd dau o'r tri Arbenigwr Ffiseg Feddygol a oedd ar gael hefyd yn Gynghorwyr Diogelu rhag Ymbelydredd¹⁶ ardystiedig ac roeddent yn ymwneud yn agos â phob gosodiad radiolegol newydd.

¹⁶ Cynghorydd Diogelu rhag Ymbelydredd yw'r awdurdod cydnabyddedig sy'n sicrhau bod gan sefydliad lefel ddigonol o amddiffyniad rhag ymbelydredd i ddiogelu staff, gweithredwyr a chleifion yn yr ardal ymbelydredd. Rôl Cynghorydd Diogelu rhag Ymbelydredd yw archwilio ffynhonnell ymbelydredd, yr hyn sydd o'i amgylch a'r defnydd ohono.

Gofal diogel


Rheoli risg ac iechyd a diogelwch

Roedd yr adran wedi'i lleoli'n union gerllaw'r brif dderbynfa / man aros ar lawr daear yr ysbyty. Roedd mynediad gwastad ar draws y mannau yr ymwelwyd â nhw, er mwyn galluogi cleifion â phroblemau symudedd i symud yn ddiogel. Roedd y rhannau o'r adran a welwyd yn lân iawn ac yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda. Roedd yn ymddangos bod yr adran yn addas i'r diben ac roedd nifer y cadeiriau a oedd ar gael yn y mannau aros yn ddigonol ar gyfer nifer y cleifion a welwyd yn aros. Roedd peiriant oeri dŵr hefyd ar gael yn y man aros i gleifion.

Roedd trefniadau ar waith i hyrwyddo diogelwch staff, cleifion ac ymwelwyr. Er enghraifft, roedd arwyddion priodol a threfniadau mynediad cyfyngedig ar waith i atal pobl anawdurdodedig rhag dod i mewn i ardaloedd lle'r oedd cyfarpar radioleg yn cael ei ddefnyddio.

Yn gyffredinol, roedd yn ymddangos bod yr adran wedi'i chynllunio'n dda, wedi'i chynnal a'i chadw'n dda, ac mewn cyflwr da. Yn ystod ein hamser yn yr adran, ni nodwyd unrhyw beryglon mewn unrhyw un o'r ardaloedd y gwnaethom ymweld â nhw.

Amlygodd ymatebion a dderbyniwyd drwy ein harolwg staff fod yr holl ymatebwyr a fynegodd farn wedi dweud, pe baent yn pryderu am arfer clinigol anniogel, y byddent yn gwybod sut i adrodd amdano. Byddent hefyd yn teimlo'n fodlon wrth leisio pryderon am ymarfer clinigol anniogel. Dywedodd naw o'r 11 ymatebydd a fynegodd farn eu bod yn hyderus y byddai eu sefydliad yn mynd i'r afael â'u pryderon ac atebodd dau "ddim yn gwybod".



Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Ar adeg ein harolygiad, roedd yr adran yn ymddangos yn lân ac yn daclus. Roedd toiled hygyrch i'r anabl ar gael i gleifion ei ddefnyddio y man aros yr adran gyda chyfleusterau ymolchi dwylo. Gwelwyd cyfleusterau ymolchi dwylo hefyd yn yr ystafelloedd triniaeth yr ymwelwyd â nhw. Gwelsom y cyfarpar diogelu personol perthnasol yn yr ystafell driniaeth yr ymwelwyd â hi. Dywedwyd wrthym yn ystod trafodaethau â staff na nodwyd unrhyw faterion ynghylch darpariaeth cyfarpar diogelu personol.

Cysylltir â chleifion dros y ffôn neu drwy lythyr apwyntiad. Roedd rhan o'r broses cysylltu â chleifion yn cynnwys gwirio nad oedd gan y claf unrhyw symptomau o COVID-19 ac egluro'r broses uchod. Roedd yr ysbyty yn mynnu bod yn rhaid gwisgo masgiau wyneb ym mhob rhan o'r ysbyty yn unol â chanllawiau cyfredol y llywodraeth. Roedd masgiau wyneb yn cael eu darparu yn y brif dderbynfa os oedd angen. Gwiriwyd tymheredd pob ymwelydd fel rhan o'r gwiriadau a gynhaliwyd yn y dderbynfa. Yn y dderbynfa, gofynnwyd cwestiynau i bob ymwelydd gan gynnwys; P'un a oedd ganddynt unrhyw symptomau COVID-19 neu wedi dod i gysylltiad ag unrhyw un â COVID-19 yn ddiweddar. Fe'n hysbyswyd ei bod yn ofynnol i staff gwblhau dau brawf llif unffordd bob wythnos. Gofynnwyd i gleifion fynd i'r ysbyty ar eu pen eu hunain lle bo modd. Gofynnwyd i unrhyw berthnasau sy'n dod gyda'r claf aros yn y car nes bod yr apwyntiad wedi'i gwblhau.


Roedd gwybodaeth a ddarparwyd gan staff y gwnaethom siarad â nhw yn nodi bod trefniadau digonol ar waith ar gyfer cynnal gwaith atal heintiau a dihalogi effeithiol yn yr adran. Cawsom ein hysbysu bod y trefniadau hyn wedi cael eu cryfhau o ganlyniad i COVID-19.

Dywedodd yr holl gleifion a gwblhaodd yr arolwg wrthym fod y lleoliad yn lân iawn a bod gweithdrefnau sy'n cydymffurfio â COVID-19 yn 'amlwg iawn' yn ystod eu hamser yn y lleoliad. Dywedodd yr holl aelodau o staff a fynegodd farn fod gweithdrefnau atal a rheoli heintiau yn cael eu dilyn bob amser.

Roedd cyfleusterau ymolchi dwylo a bocys hylif diheintio dwylo ar gael trwy'r adran. Roedd modd glanhau'r holl gadeiriau sydd ar gael yn y mannau aros yn lân, er mwyn galluogi glanhau digonol. Roedd arwyddion yn cael eu harddangos trwy'r adran i atgoffa'r staff, y cleifion ac ymwelwyr o'r gofynion cadw pellter cymdeithasol.

Cadarnhaodd yr uwch-reolwyr fod trefniadau ar waith i sicrhau bod cyflenwad digonol o gyfarpar diogelu personol ar gael o fewn yr adran i'r staff. Fe'n hysbyswyd hefyd fod y staff wedi derbyn hyfforddiant ar wisgo a diosg¹⁷.

Fe wnaethom ofyn cyfres o gwestiynau i staff yn yr holiadur yn ymwneud â chydymffurfedd COVID-19, a dangosir yr ymatebion isod.



Diogelu plant a diogelu oedolion agored i niwed

Dywedodd yr holl staff y gwnaethom siarad â nhw fod y staff wedi derbyn yr hyfforddiant diogelu perthnasol i lefel dau a hefyd hyfforddiant yn y Ddeddf Galluedd Meddyliol. Roeddent yn gallu disgrifio'r broses pe bai mater diogelu'n cael ei nodi. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw hefyd yn ymwybodol o bolisiâu a gweithdrefnau'r sefydliad ar gyfer diogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg. Roedd staff hefyd yn ymwybodol o arweinydd diogelu'r ysbyty.

Gofal effeithiol

¹⁷ Gwisgo – gwisgo cyfarpar diogelu personol; diosg – tynnu cyfarpar diogelu personol.

Cymryd rhan mewn gweithgareddau gwella ansawdd

Archwiliadau clinigol

Roedd gweithdrefn ysgrifenedig y cyflogwr ar gyfer rhaglenni sicrhau ansawdd yn ymwneud ag RhYŷ(CM). Roedd hyn yn nodi mai'r unigolyn â chyfrifoldeb am archwilio clinigol oedd Pennaeth y Gwasanaethau Clinigol. Disgrifiodd y weithdrefn ymhellach fod rhaid sefydlu rhaglen archwilio glinigol dreigl ysgrifenedig i gynnwys archwiliad o weithdrefnau'r cyflogwr i sicrhau eu bod ar waith ac yn cael eu dilyn. Roedd y weithdrefn hefyd yn rhoi enghreifftiau o'r mathau o archwiliadau yr oedd yn rhaid eu cynnal yn rheolaidd.

Roedd y rhestr o archwiliadau a ddarparwyd yn ymddangos yn archwiliadau RhYŷ(CM) yn hytrach nag archwiliadau clinigol. Dylid anelu archwiliadau clinigol at wella gofal cleifion trwy nodi meysydd i'w gwella a hyrwyddo defnydd effeithiol o adnoddau a gwella gwasanaethau clinigol. Dylent hefyd amlygu unrhyw anghysondebau rhwng arferion a safonau gwirioneddol.

Roedd tystiolaeth o archwiliadau RhYŷ(CM) ar waith i sicrhau cydymffurfedd ac roedd hyn yn cael ei fonitro'n rheolaidd, gyda gwelliannau'n cael eu gwneud pan fydd angen. Fodd bynnag, nid oedd y ddogfennaeth a ddarparwyd yn cynnwys nodau a dibenion yr archwiliad a gwybodaeth arall fel y'i disgrifir yng ngweithdrefn y cyflogwr. Mae'n ofynnol i'r ysbyty sefydlu rhaglen archwilio clinigol. Dylai'r dogfennau archwilio gynnwys yr wybodaeth sy'n ofynnol yng ngweithdrefn ysgrifenedig y cyflogwr.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r cyflogwr sicrhau'r canlynol:

- Rhoddir rhaglen archwilio clinigol ar waith sy'n cwmpasu'r meysydd archwilio clinigol a ddisgrifir yn y weithdrefn a'r meysydd a drafodwyd yn ystod yr arolygiad
- Mae'r archwiliadau'n cynnwys diben a nodau'r archwiliad yn ogystal â'r adroddiadau archwilio a gweithrediad y newidiadau dilynol.

Cyngor arbenigol

Fel y nodwyd yn flaenorol, roedd cytundeb lefel gwasanaeth ar waith rhwng yr ysbyty a Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, ar gyfer darparu cyngor a chymorth Arbenigwr Ffiseg Feddygol i'r adran. Cawsom wybod bod Arbenigwyr Ffiseg Feddygol yn cymryd rhan yn agweddau ymarferol y gwasanaeth, gan gynnwys archwiliadau dos, sicrhau ansawdd perfformiad cyfarpar, optimeiddio,

a dadansoddi cysylltiadau damweiniol neu anfwriadol ag ymbelydredd. Cawsom wybod hefyd bod Arbenigwyr Ffiseg Feddygol wedi'i gynnwys ym mhob cyfarfod perthnasol yn ymwneud â datguddiadau ymbelydredd yn ogystal â darparu hyfforddiant a chynghor diogelwch MRI. Roedd y cytundeb lefel gwasanaeth yn cael ei adolygu'n flynyddol.

Roedd tystiolaeth i arddangos bod rhyngweithio ac ymgysylltu da rhwng Arbenigwyr Ffiseg Feddygol a'r adran. Cadarnhaodd y staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn gallu cysylltu ag Arbenigwr Ffiseg Feddygol am gyngor a chymorth pan fydd angen.

Dywedodd uwch-staff y gwnaethom siarad â nhw, gan gynnwys yr Arbenigwr Ffiseg Feddygol, fod yr Arbenigwyr Ffiseg Feddygol yn darparu asesiadau cymharol lle gosodwyd systemau tebyg yn Ne-orllewin Cymru. Roedd cynlluniau hefyd i ddatblygu tîm optimeiddio delweddau ar gyfer radiograffeg ddigidol ac i ddod â'r ysbyty i mewn i dimau ehangach De-orllewin Cymru a'r dysgu a rennir dilynol.

Dywedodd y ffurflen hunanasesu fod Arbenigwyr Ffiseg Feddygol yn cynnal hyfforddiant diogelu rhag ymbelydredd yn rheolaidd a sesiynau diweddarau sy'n rhoi cyngor ar gydymffurfio â'r rheoliadau gan gynnwys gwersi a ddysgwyd o arolygiadau statudol.

Ymchwil feddygol

Roedd gweithdrefn y cyflogwr ar waith mewn perthynas â gweithdrefnau delweddu a gynhelir at ddibenion ymchwil feddygol. Cadarnhaodd yr uwch-reolwyr nad yw'r adran yn cymryd rhan mewn unrhyw ymchwil mewn perthynas â chysylltiadau ag ymbelydredd yn sgil offer meddygol ar hyn o bryd. Dylai'r cyflogwr sicrhau bod gweithdrefn y cyflogwr yn cael ei diweddarau i nodi na chynhelir cysylltiadau ag ymbelydredd yn sgil gwaith ymchwil yn yr ysbyty ar hyn o bryd.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r cyflogwr sicrhau bod y weithdrefn ysgrifenedig mewn perthynas â chysylltiadau ag ymbelydredd yn sgil gwaith ymchwil yn cael ei diweddarau i nodi na chynhelir y cysylltiadau hyn ag ymbelydredd yn yr adran yn yr ysbyty ar hyn o bryd.

Rheoli cofnodion

Gwnaethom adolygu sampl o bedwar cofnod atgyfeirio cleifion cyfredol a thri chofnod atgyfeirio cleifion ôl-weithredol. Roedd y cofnodion a adolygwyd wedi'u

cwblhau gyda manylion priodol gan y staff hynny a oedd yn ymwneud â'r cysylltiad ag ymbelydredd. Roedd y ffurflenni'n glir ac wedi'u cwblhau i safon dda gyda gwybodaeth glinigol berthnasol yn cael ei gweld i gyfiawnhau'r atgyfeiriad.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Gwnaethom ystyried sut mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi darparu gofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom hefyd ystyried sut mae'r gwasanaeth yn adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol

Roedd strwythur sefydliadol ar waith ar gyfer yr adran radioleg gyffredinol, gyda llinellau adrodd clir.

Yn gyffredinol, roedd yr adborth gan y staff yn nodi eu bod yn hapus gyda lefel y cymorth ac ymgysylltiad gan eu rheolwr llinell uniongyrchol a chan uwch-reolwyr yn y gwasanaeth.

Roedd systemau ar waith i fonitro hyfforddiant gorfodol ac arfarniadau personol yn rheolaidd, ac roedd lefelau cydymffurfio cyffredinol yn yr adran yn dda.

Roedd gweithdrefnau, polisïau a phrotocolau'r cyflogwr a ddarparwyd fel tystiolaeth yn fanwl iawn. Fodd bynnag, amlygwyd rhai meysydd a fyddai'n gwella eglurder y gweithdrefnau ymhellach.

Gwnaeth AGIC gyhoeddi arolwg ar-lein i gael barn y staff ar yr Adran Delweddu Diagnostig yn yr ysbyty. Cawsom gyfanswm o 11 o ymatebion gan y staff yn yr ysbyty. Roedd yr ymatebion hyn yn cynnwys radiograffwyr, meddygon ymgynghorol a staff "eraill".

Roedd mwyafrif yr ymatebion yn nodi profiad staff cadarnhaol, gyda 73% (8 o 11) yn argymhell y sefydliad hwn fel lle i weithio. Roedd barn y staff am brofiad y claf hefyd yn gadarnhaol gyda phawb yn fodlon ar ansawdd y gofal maent yn ei roi i'r cleifion, a phawb yn nodi y byddent yn hapus â safon y gofal a ddarperir gan y sefydliad hwn iddynt hwy eu hunain neu eu teulu.

Roedd rhai meysydd ag ymatebion llai cadarnhaol, gan awgrymu bod potensial i wella. Roedd y rhain yn cynnwys staffio, cydberthnasau ag uwch-reolwyr, a gallu canfyddedig llai i staff ddylanwadu ar eu gweithle, megis awgrymu gwelliannau, nodi a datrys problemau a bod yn rhan o benderfyniadau a oedd yn effeithio ar eu gwaith.

Cyn ein harolygiad, roedd AGIC yn ei gwneud yn ofynnol i uwch-aelodau o staff yn yr adran gwblhau holiadur hunanasesu a'i chyflwyno. Roedd hyn er mwyn darparu gwybodaeth fanwl i AGIC am yr adran, yn ogystal â pholisïau a gweithdrefnau allweddol y cyflogwr ar waith, mewn perthynas â RhYŷ(CM) 2017. Defnyddiwyd y ddogfen hon i lywio'r dull arolygu.


Roedd y ffurflen hunanasesu wedi'i chwblhau i safon uchel, gan arddangos dealltwriaeth o'r rheoliadau a'u gweithrediad mewn ymarfer clinigol. Cafodd ei dychwelyd i AGIC o fewn yr amserlen y cytunwyd arni ac roedd yn gynhwysfawr. Pan oedd angen eglurder ychwanegol ynghylch rhai o'r ymatebion a ddarparwyd, rhoddodd uwch-aelodau o staff yr wybodaeth ychwanegol yn brydlon.

Ar ddyddiau ein harolygiad, sicrhodd uwch-reolwyr ymhlith y staff eu bod ar gael a gwnaethant hwyluso'r broses arolygu. Roeddent yn derbyn ein hadborth a gwnaethant arddangos parodrwydd i wneud gwelliannau o ganlyniad i'r materion a amlygwyd.

Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

Roedd siart sefydliadol a oedd yn dangos y cysylltiad rhwng y cyflogwr a'r adran ac yn dangos llinellau atebolrwydd clir o fewn y gwasanaeth.

Cadarnhaodd yr uwch-reolwyr fod trefniadau ar waith i sicrhau bod ymgysylltiad rheolaidd â staff yr adran, gan gynnwys trwy gyfarfodydd staff a negeseuon e-bost. Dywedwyd wrthym fod uwch-reolwyr yn ymweld â'r adran ac yn ymgysylltu â staff yn rheolaidd. Mae'r ymatebion a dderbyniwyd drwy ein harolwg yn ymwneud â datganiadau am uwch-reolwyr yn yr ysbyty i'w gweld isod.



Dyletswyddau'r cyflogwr

Hawlogaeth

Roedd gweithdrefn y cyflogwr ar waith mewn perthynas â'r broses ar gyfer rhoi hawl o dan RhYI(CM) 2017. Roedd ddogfen Polisi Diogelwch Ymbelydredd Ïoneiddio hefyd, a oedd yn dangos y drefn dirprwyo cyfrifoldebau mewn meysydd amrywiol.

Dywedodd y Polisi Diogelwch Ymbelydredd Ïoneiddio mai'r HMT trosfwaol oedd y cyflogwr RhYI(CM). Roedd y ddogfen hefyd yn rhestru'r drefn dirprwyo cyfrifoldebau i unigolion priodol. Roedd y Polisi Diogelwch Ymbelydredd Ïoneiddio hefyd yn ymgorffori gweithdrefnau'r cyflogwr RhYI(CM).

Gwelwyd tystiolaeth o fatrics hawl ar gyfer y staff sy'n gweithio yn yr adran. Darparodd y ddogfen hon y lefel ofynnol o fanylion ac roedd yn amlinellu'n benodol y tasgau sydd gan unigolion yr hawl i'w gwneud.

Fel y nodwyd yn flaenorol, roedd cofnodion hyfforddiant, cymhwysedd a hawliau deiliaid dyletswydd yn glir ac yn gynhwysfawr.

Cadarnhaodd yr uwch-reolwyr yr anfonwyd llythyrau at atgyfeirwyr meddygol sy'n cadarnhau eu hawl a chwmpas eu hymarfer ar gyfer atgyfeirio cleifion i'r adran.

Gweithdrefnau a phrotocolau

Yn unol â'r manylion yn y Polisi Diogelwch Ymbelydredd Ïoneiddio, cadarnhaodd uwch-reolwyr mai'r cyflogwr yw'r Ymddiriedolaeth Rheoli Gofal Iechyd gyda Chyfarwyddwr yr Ysbyty yn atebol am gydymffurfedd RhYŷ(CM) o fewn yr ysbyty

Fel y nodwyd yn flaenorol, cadarnhaodd y staff y gwnaethom siarad â nhw fel rhan o'n harolygiad eu bod yn gallu cael mynediad at bolisïau a gweithdrefnau perthnasol pan fydd angen. Cadarnhaodd yr uwch-reolwyr fod trefniadau ar waith i hysbysu'r staff perthnasol ar yr achlysuron lle y gwnaed diweddariadau i weithdrefnau neu brotocolau ysgrifenedig, ynghyd ag i'r staff gadarnhau eu bod wedi darllen a deall y dogfennau hyn.

Fel y disgrifiwyd uchod, roedd gweithdrefn y cyflogwr ar waith mewn perthynas â sicrhau ansawdd gweithdrefnau a phrotocolau ysgrifenedig. Roedd y ddogfen hon yn amlinellu'r rhaglenni sicrhau ansawdd ar gyfer yr holl bolisïau, gweithdrefnau, protocolau a chyfarpar sy'n berthnasol i RhYŷ(CM) 2017. Roedd y ddogfen yn nodi amllder yr adolygiad a chyfrifoldebau'r adolygiad i bob math o ddogfen a ddefnyddir yn y gwasanaeth. Roedd y weithdrefn yn amlinellu'r wybodaeth am reoli dogfennau y mae'n rhaid ei chynnwys ar bob dogfen, a oedd yn cynnwys y perchennog, y dyddiad cymeradwyo, y dyddiad adolygu a rhif y fersiwn. Roedd y weithdrefn hefyd yn nodi cyfrifoldebau ac amllder yr archwiliadau.

Yn gyffredinol, roedd y polisïau, gweithdrefnau a phrotocolau ysgrifenedig a ddarparwyd fel tystiolaeth yn glir ac yn cynnwys y manylion gofynnol. Fodd bynnag, gwnaethom nodi nifer o fân feysydd a drafodwyd gyda'r staff i roi mwy o eglurder ac i gywiro rhai gwallau cyflwyniad yng ngweithdrefnau'r cyflogwr. Y rhain oedd:

Rhif Gweithdrefn y Cyflogwr	Enw'r Weithdrefn	Cywiro gwall
2	Gweithdrefn ar gyfer atgyfeirio a meini prawf atgyfeirio.	Manylion am sut y rheolir atgyfeiriadau anghyflawn neu annigonol.
5	Gweithdrefn ar gyfer gwirio statws beichiogrwydd unigolion o oedran cael plant.	Diweddarau gweithdrefn y cyflogwr ar gyfer gwirio beichiogrwydd, a'r ffurflen, i ystyried amrywiaeth rhyw.

7	Gweithdrefn ar gyfer asesu a chofnodi dos y claf.	Ystyried y broses ar gyfer cofnodi dos ar gyfer radiograffeg blaen (ffurflen atgyfeirio ac nid y system wybodaeth radiolegol) gan ei fod yn wahanol i fflworosgopeg yn ôl y tabl.
10	Gweithdrefn ar gyfer adrodd ac ymchwilio i achosion o gysylltiad damweiniol neu anfwriadol ag ymbelydredd.	Ychwanegu cyfeiriad at y dadansoddiad o'r achosion sylfaenol a sut y rhannwyd y dysgu, yn ogystal ag unrhyw ffactorau cyfrannol. Ychwanegu dolen i'r polisi adrodd.
12	Gweithdrefn ar gyfer lleihau tebygolrwydd a maint achosion o gysylltiad damweiniol neu anfwriadol ag ymbelydredd.	Cynnwys yn y rhestr ymholiadau beichiogrwydd a rhaglen archwilio.
14	Gweithdrefn ar gyfer achosion o gysylltiad ag ymbelydredd yn sgil delweddu anfeddygol.	Diweddarau y weithdrefn hon i gynnwys cam saith am ei fod ar goll ar hyn o bryd.
15	Gweithdrefn ar gyfer darparu gwybodaeth ddigonol i unigolion gael eu hamlygu mewn perthynas â buddion a risgiau.	Mae angen i weithdrefn y cyflogwr a rhestr wirio Sefydliad Iechyd y Byd gynnwys y gofyniad am fuddion a risgiau i'r claf, er mwyn sicrhau cysondeb a hyfforddiant a gwybodaeth bosibl.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r cyflogwr sicrhau bod gweithdrefn y cyflogwr yn cael ei diweddarau fel y disgrifir yn y tabl uchod ac fel y trafodwyd yn ystod yr arolygiad.

Achosion damweiniol neu anfwriadol o gysylltiad sylweddol ag ymbelydredd

Roedd gweithdrefn y cyflogwr ar waith yn amlinellu'r camau gofynnol ar gyfer adrodd ac ymchwilio i gysylltiadau damweiniol neu anfwriadol posibl neu wirioneddol ag ymbelydredd. Roedd y weithdrefn yn nodi'r broses sydd i'w dilyn gan y staff perthnasol i sicrhau bod y digwyddiad yn destun ymchwiliad priodol, ei fod wedi cael ei ddogfennu'n briodol, ac, os oedd angen, ei fod wedi cael ei adrodd i AGIC mewn modd amserol. Disgrifiodd y staff y gwnaethom siarad â nhw y trefniadau sydd ar waith mewn perthynas â chysylltiadau damweiniol ac anfwriadol ag ymbelydredd, sy'n adlewyrchu'r ddogfennaeth a adolygwyd.


Fe'n hysbyswyd bod pob digwyddiad a damweiniau y bu ond y dim iddynt ddigwydd yn cael eu cofnodi yn Datix ac y byddai'r Arbenigwr Ffiseg Feddygol yn cael ei hysbysu. Ni nodwyd unrhyw ddigwyddiad a oedd yn bodloni'r meini prawf ar gyfer adrodd dan RhYI(CM) yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Byddai unrhyw newidiadau a fyddai'n cael eu hargymell, o ganlyniad i unrhyw ddigwyddiadau neu ddigwyddiadau y bu ond y dim iddynt ddigwydd, yn cael eu rhannu'n rheolaidd â'r staff.

Cawsom gopi o'r ddogfen Adrodd a Rheoli Digwyddiadau, gan gynnwys Digwyddiadau Difrifol. Pwrpas y polisi hwn oedd nodi'r camau mae'n rhaid eu dilyn ar gyfer adrodd am bob digwyddiad. Roedd y polisi yn gynhwysfawr ond nid oedd yn benodol i Gymru ac yn cynnwys cyfeiriadau at y Comisiwn Gofal Ansawdd, rheoleiddiwr annibynnol yr holl wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn Lloegr. Rhaid i'r ysbyty sicrhau bod y polisi'n cael ei addasu i'w ddefnyddio yng Nghymru.

Ni ddywedodd yr un aelod o'r staff a fynegodd farn yn yr arolwg eu bod wedi gweld digwyddiad lle bu cysylltiad damweiniol neu heb oruchwyliaeth ag ymbelydredd a effeithiodd ar gleifion yn ystod y mis diwethaf. Dywedodd pedwar o'r 11 aelod o staff a ymatebodd eu bod wedi gweld gwallau diogelwch cleifion, digwyddiadau y bu ond y dim iddynt ddigwydd, neu ddigwyddiadau yn ystod y mis diwethaf. Dywedodd saith mai'r tro diwethaf iddynt weld achos o gysylltiad anfwriadol ag ymbelydredd, camgymeriad, digwyddiad y bu ond y dim iddo ddigwydd neu ddigwyddiad iddynt adrodd amdano, dywedodd dau nad oeddent ac atebodd un "ddim yn gwybod". Gwnaeth un aelod o staff y sylwadau canlynol:

"Ni fues erioed yn rhan o gamgymeriad, digwyddiad y bu ond y dim iddo ddigwydd neu ddigwyddiad er mwyn gwneud sylw ond rwy'n ymwybodol o'r system Datix ar gyfer adrodd am bethau."

Gofynnwyd cyfres o gwestiynau i'r staff yn ymwneud â chamgymeriadau, digwyddiadau y bu ond y dim iddynt ddigwydd neu ddigwyddiadau, a dangosir eu hmatebion isod.



Gwnaeth un aelod o staff y sylwadau canlynol:

“... y lefel nesaf o reolaeth sydd fel arfer yn ymyrryd/effeithio ar rediad yr adran ac yn rhoi straen ychwanegol ar fy rheolwr llinell!”

Fel rhan o'r ffurflen hunanasesu, cawsom adroddiad ymchwiliol a oedd, yn ein barn ni, yn enghraifft dda o sut roedd yr hyn a ddysgwyd o'r digwyddiad yn 2020 yn dda ac yn dangos beth i beidio â'i wneud a sut i'w wneud yn gywir.

Staff ac adnoddau

Gweithlu

Cynhaliwyd trafodaethau ag uwch-reolwyr y gwasanaeth fel rhan o'n harolygiad, yn ogystal â detholiad o staff sy'n gweithio yn yr adran. Fel y disgrifiwyd uchod, roedd arolwg staff ar gael i roi'r cyfle i bob aelod o staff sy'n gweithio o fewn yr adran leisio ei farn.

Yn gyffredinol, derbyniwyd ymatebion cadarnhaol gan y staff ynglŷn â'u rheolwr llinell uniongyrchol mewn perthynas â darparu cymorth, adborth ac ymgysylltiad cyn gwneud penderfyniadau sy'n cael effaith ar eu gwaith. Gwnaethom ofyn a oedd staff wedi wynebu gwahaniaethu yn y gwaith yn ystod y 12 mis diwethaf.


Dywedodd naw ymatebydd nad oeddent wedi gwneud hynny ond atebodd dau “gwell gennyf beidio â dweud”. Roedd saith o’r deg ymatebwr a atebodd y cwestiwn yn cytuno bod staff yn cael mynediad teg a chyfartal at gyfleoedd yn y gweithle (waeth beth fo’u hoedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol), dywedodd un nad oeddent, ac atebodd dau “gwell gennyf beidio â dweud”. Roedd naw o’r 11 o ymatebwyr a fynegodd farn yn cytuno bod eu gweithle yn gefnogol i gydraddoldeb ac amrywiaeth, ond atebodd dau “gwell gennyf beidio â dweud”.

O ystyried y materion a amlygwyd yn ymatebion y staff, dylai’r ysbyty adolygu’r prosesau sydd ar waith i alluogi staff i adrodd am unrhyw bryderon yn fewnol. Mae hyn er mwyn sicrhau ei bod yn broses gynhwysol sy’n annog staff i leisio’u pryderon heb ofni gwrthgyhuddiad, yn ogystal â sicrhau yr ymatebir i unrhyw bryderon a godir ac yr ymchwilir iddynt yn briodol. Rhaid i’r ysbyty hefyd sicrhau bod y staff yn cael eu hatgoffa o’r broses berthnasol sydd ar waith.

Cadarnhaodd uwch-reolwyr fod lefelau staffio’r uned yn briodol ac yn ddiogel. Roedd yr ysbyty yn y broses o gyflogi rheolwr llawn amser o’r adran a dywedodd y gallent fodloni gofynion cleifion yr ysbyty. Mynegodd chwech o’r deg aelod o staff a ymatebodd i’r holiaduron farn bod bob amser neu fel arfer digon o staff yn gweithio yn yr adran i wneud eu gwaith yn iawn a dywedodd pedwar fod yna weithiau. Dywedodd wyth o’r deg a fynegodd farn eu bod bob amser neu fel arfer yn gallu bodloni’r holl ofynion croes ar eu hamser yn y gwaith, a dywedodd dau eu bod weithiau.

Cadarnhaodd uwch-reolwyr fod trefniadau ar waith i sicrhau bod yr holl staff yn cael eu goruchwyllo a’u harfarnu. Dywedwyd wrthym fod y staff yn cael arfarniadau blynyddol a sesiynau goruchwyllo bob chwe mis. Roedd y rheolwyr yn edrych ar ddod o hyd i oruchwyliwr allanol i reoli’r oruchwyliaeth. Roedd staff yn derbyn adolygiadau gan gymheiriaid ar hyn o bryd. Ar adeg ein harolygiad, roedd y lefel gydymffurfio ag arfarniadau yn 100 y cant. Dywedodd deg o’r 11 a fynegodd farn eu bod wedi cael adolygiad neu arfarniad blynyddol o fewn y 12 mis diwethaf. Dywedodd wyth o’r deg a atebodd y cwestiwn fod eu hanghenion hyfforddi, dysgu neu ddatblygu wedi’u nodi yn ystod yr arfarniad.

Gofynnwyd amrywiaeth o gwestiynau i staff ynghylch eu hyfforddiant, a dangosir yr ymatebion a dderbyniwyd isod.



Cawsom ddau sylw ar y mathau o hyfforddiant a fyddai'n ddefnyddiol i staff, a dangosir y rhain isod:

“Hyfforddiant MRI cardiaidd”

“PACS”.


Dywedodd saith o'r deg a atebodd y cwestiwn fod eu rheolwr yn eu cefnogi i dderbyn hyfforddiant a datblygiad a dywedodd tri nad oeddent. Dywedodd pob aelod o staff ac eithrio un a fynegodd farn fod hyfforddiant bob amser neu fel arfer yn eu helpu i wneud eu gwaith yn fwy effeithiol a dywedodd un ei fod yn gwneud hynny weithiau. Dywedodd yr holl ymatebwyr a fynegodd farn bod hyfforddiant bob amser yn eu helpu i gael yr wybodaeth ddiweddaraf am ofynion proffesiynol. Dywedodd pob aelod o staff ac eithrio un a fynegodd farn ei fod bob amser neu fel arfer yn eu helpu i ddarparu profiad gwell i gleifion a theimlai un nad oedd hyn yn berthnasol iddynt.

Gwnaethom wirio sampl o gofnodion hyfforddi pum aelod o staff, a oedd yn dangos eu bod wedi cwblhau'r hyfforddiant gorfodol perthnasol a'r hyfforddiant iechyd a diogelwch. Roedd tri o'r pum aelod o staff wedi cwblhau hyfforddiant atal a rheoli heintiau ac roeddent yn gyfredol, ac roedd y ddau arall i fod i gwblhau hyfforddiant blynyddol. Roedd pedwar o'r pum aelod o staff wedi cwblhau hyfforddiant diogelu i'r lefel ofynnol. Roedd tystiolaeth glir bod staff wedi cwblhau hyfforddiant dadebru. Gwelsom hefyd fod yr holl staff clinigol yn cael hyfforddiant hyd at gynnal bywyd uniongyrchol. Roedd y cofnodion hyfforddi yn glir ac roedd system briodol i nodi pryd yr oedd angen cwblhau hyfforddiant penodol.

Dywedodd yr uwch-staff fod nifer o drefniadau cymorth ar waith ar gyfer staff. Roedd y rhain yn cynnwys gwasanaeth rheolwr ar alwad a hyrwyddwr iechyd meddwl penodol ar gyfer iechyd galwedigaethol. Yn ddiweddar, hysbyswyd yr holl staff am y trefniant rhwng yr ysbyty a darparwr rhaglen byw'n iach. Dywedodd yr uwch-staff wrthym hefyd am y galwadau lles i staff, cyfarfodydd rheolaidd i wirio sut oedd staff, yn ogystal â chyfarfodydd un-i-un.


Roedd hefyd yn gadarnhaol nodi bod uwch-radiograffydd penodol wedi'i ddyrannu i aelodau newydd o staff i weithredu fel mentor gyda'r cyfrifoldeb i ddarparu cymorth ac unrhyw hyfforddiant angenrheidiol. Roedd hyn yn arbennig o bwysig yn ystod y cyfnod allweddol pan oedd y radiograffydd yn cael profiad o'r adran a'i harferion.

O ran iechyd a llesiant, atebodd y staff a gwblhaodd yr arolwg fel a ganlyn:




Gofynnwyd cyfres o gwestiynau i'r staff am y sefydliad a'r uwch-reolwyr. Dangosir eu hymatebion isod.

Sefydliad



Y Rheolwr Uniongyrchol



Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r ysbyty:

- Cadarnhau bod prosesau ar waith i ganiatáu i unrhyw aelod o staff adrodd ar unrhyw faterion sy'n peri pryder yn fewnol, yn ogystal â sicrhau bod unrhyw bryderon a godir yn destun ymchwiliad ac ymateb priodol
- Cadarnhau bod prosesau ar waith i sicrhau bod y staff yn cael eu trin yn deg ac yn gyfartal mewn perthynas â chyfleoedd yn y gweithle, ac na fydd unrhyw achosion o wahaniaethu yn cael eu goddef ac y bydd camau priodol yn cael eu cymryd
- Sicrhau bod yr holl staff yn meddu ar yr holl hyfforddiant gorfodol a gofynnol diweddaraf

4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon dybryd yn ystod ein harolygiad, y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, mae'r rhain yn cael eu manylu yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle bônt yn berthnasol):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgwyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw bryderon dybryd o ran diogelwch cleifion lle rydym am i'r gwasanaeth lunio cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym am i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Os nodir unrhyw achosion difrifol o dorri rheoliadau a phryderon o ran diogelwch a lles y cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, bydd darparwr cofrestredig y gwasanaeth yn cael ei hysbysu drwy [hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio](#). Mae cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn fater difrifol ac yn gam cyntaf mewn proses a all arwain at ddwyn achos sifil neu droseddol.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Datgan yn eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw digonol

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau'n systemig ar draws mannau eraill o fewn y sefydliad ehangach

- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu gwasanaethau sy'n defnyddio ymbelydredd ìoneiddio

Mae AGIC yn gyfrifol am fonitro cydymffurfedd â [Rheoliadau Ymbelydredd ìoneiddio \(Cysylltiad Meddygol\) 2017](#) a'u diwygiad dilynol ([2018](#)).

Llunnir y rheoliadau i sicrhau'r canlynol:

- Mae cleifion yn cael eu hamddiffyn rhag cysylltiad anfwriadol, gormodol neu anghywir ag ymbelydredd yn sgil offer meddygol ac, ym mhob achos, bod y risg o'r cysylltiad ag ymbelydredd yn cael ei hasesu yn erbyn y budd clinigol
- Nid yw cleifion yn cael mwy o gysylltiad ag ymbelydredd nag sy'n angenrheidiol i gyflawni'r budd a ddymunir o fewn terfynau'r dechnoleg gyfredol
- Mae gwirfoddolwyr mewn rhaglenni ymchwil feddygol yn cael eu diogelu

Rydym yn edrych ar sut mae gwasanaethau yn:

- Cydymffurfio â'r Rheoliadau Ymbelydredd ìoneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2017
- Bodloni Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru (2011)
- Bodloni unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, fel y bo'n briodol.

Mae ein harolygiadau o wasanaethau gofal iechyd sy'n defnyddio ymbelydredd ìoneiddio fel arfer yn rhai lle rhoddir rhybudd. Mae gwasanaethau'n derbyn rhybudd o hyd at 12 wythnos o arolygiad.

Cynhelir yr arolygiadau gan o leiaf un arolygydd AGIC ac fe'u cefnogir gan Uwchswyddog Diagnostig Clinigol o'r Grŵp Cysylltiadau Meddygol Asiantaeth Diogelwch Iechyd y DU, sy'n gweithredu fel cynghorydd.

Mae adborth yn cael ei ddarparu i gynrychiolwyr y gwasanaeth ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefelau gweithredol a strategol.

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal sy'n ymwneud ag ymbelydredd ïoneiddio.

Ceir gwybodaeth bellach am [sut mae AGIC yn arolygu'r GIG](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a uwchgyfeiriwyd yn ystod yr arolygiad. Oherwydd yr effaith / effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

Pryderon dybryd a nodwyd	Effaith / effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon dybryd yn ystod yr arolygiad hwn.			

Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

Ysbyty: HMT Ysbyty Sancta Maria
Ward/adran: Adran Delweddu Diagnostig
Dyddiad yr arolygiad: 15 a 16 Chwefror 2022

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon dybryd ynghylch diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw faterion dybryd ynghylch sicrwydd yn ystod yr arolygiad hwn.				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (llythrennau bras):

Swydd:

Dyddiad:

Atodiad C – Cynllun gwella

Ysbyty: HMT Ysbyty Sancta Maria
Ward/adran: Adran Delweddu Diagnostig
Dyddiad yr arolygiad: 15 a 16 Chwefror 2022

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
Rhaid i'r cyflogwr sicrhau bod yr wybodaeth mae cleifion yn y theatr yn ei chael am fuddion a risgiau'r cysylltiad ag ymbelydredd yn cael ei chytuno'n ffurfiol a'i bod ar gael i alluogi staff i roi dull cyson o egluro yn eu hesboniad.	Safon Gwybodaeth Chydsyniad Cleifion Rheoliad Atodlen 2 (i)	9 a 6 Bydd buddion a risgiau'r cysylltiad ag ymbelydredd yn cael eu hychwanegu at daflen nodiadau er mwyn galluogi staff i roi dull cyson o egluro eu hesboniadau. Bydd hyn yn cael ei adolygu gan y rheolwr gwasanaethau Radioleg newydd pan gaiff ei phenodi ar 20/06/22.	Rheolwr Gwasanaethau Radioleg	I'w gwblhau erbyn 30/06/22.
Rhaid i'r ysbyty sicrhau bod trefniadau ar waith i ddarparu diweddariadau rheolaidd i gleifion ar yr adborth profiad cleifion a dderbyniwyd gan y	Safon Ymgysylltu	5 â Mae poster "Dywedoch Chi Gwnaethom Ni" wedi'i gyflwyno ac mae unrhyw	Radiograffydd Goruchwyliol	Cwblhawyd

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
gwasanaeth, yn ogystal ag unrhyw gamau dilynol a gymerir.	dinasyddion ac adborn	gamau gweithredu / gwelliannau wedi'u hamlygu gan ddefnyddio'r poster hwn.		
Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol				
Rhaid i'r cyflogwr sicrhau bod gweithdrefn y cyflogwr yn cael ei diweddarau i gyfeirio at unigolion sydd â'r gallu i gael plant yn hytrach na benywod.	Rheoliad 11 (1) (f), Atodlen 2 1 (C)	Gweithdrefn Cyflogeion 5 wedi'i diwygio.	Radiograffydd Goruchwyliol/ Arbenigwr Ffiseg Feddygol	Cwblhawyd
Rhaid i'r cyflogwr sicrhau bod gweithdrefn y cyflogwr yn cael ei newid i adlewyrchu'r angen i gofnodi tystiolaeth bod gwiriad yn cael ei wneud o unigolion sydd â'r gallu i gael plant ar y ffurflen gydsynio.	Rheoliad 6 Atodlen 2 1 (c)	Bydd hwn yn cael ei ychwanegu at y Weithdrefn Cyflogeion.	Radiograffydd Goruchwyliol / Arbenigwr Ffiseg Feddygol	I'w gwblhau erbyn 30/06/22
Rhaid i'r cyflogwr sicrhau bod gan Arbenigwyr Ffiseg Feddygol hawl fel gweithredwyr a'u hychwanegu at dabl gweithdrefnau'r cyflogwr ar gyfer hawl.	Rheoliad 6 Atodlen 2 1 (b)	Arbenigwyr Ffiseg Feddygol wedi'u hychwanegu at y matrices.	Radiograffydd Goruchwyliol	Cwblhawyd

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Rhaid i'r cyflogwr sicrhau bod rhaglen archwilio clinigol yn cael ei rhoi ar waith sy'n cwmpasu'r meysydd archwilio clinigol a ddisgrifir yn y weithdrefn a'r meysydd a drafodwyd yn yr arolygiad.	Rheoliad 7	Mae'r rhaglen archwilio clinigol wedi'i diweddarau i gynnwys archwiliad clinigol yn ogystal â RhYŷ(CM).	Radiograffydd Goruchwyliol	Cwblhawyd
Rhaid i'r cyflogwr sicrhau bod yr archwiliadau'n cynnwys diben a nodau'r archwiliad yn ogystal â'r adroddiadau archwilio a'r newidiadau dilynol a weithredir.	Rheoliad 7	Mae'r rhaglen archwilio clinigol wedi'i diwygio i gynnwys y diben a'r nodau, mae'r rhain wedi'u hychwanegu at y system archwilio electronig – RADAR. Bydd hyn yn cael ei adolygu eto gan y rheolwr gwasanaethau Radioleg newydd pan gaiff ei phenodi ar 20/06/22.	Rheolwr Gwasanaethau Radioleg	I'w gwblhau erbyn 30/06/22
Rhaid i'r cyflogwr sicrhau bod y weithdrefn ysgrifenedig mewn perthynas â chysylltiadau ag ymbelydredd yn sgil gwaith ymchwil yn cael ei diweddarau i nodi na chynhelir y cysylltiadau hyn ag ymbelydredd yn yr adran yn yr ysbyty ar hyn o bryd.	Rheoliad 6 Atodlen 2 1 (g)	Gweithdrefn Cyflogeion 9 wedi'i diwygio.	Radiograffydd Goruchwyliol	Cwblhawyd

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth				
Rhaid i'r ysbyty sicrhau bod gweithdrefn y cyflogwr yn cael ei diwedddaru fel y'i disgrifir yn y tabl uchod ac fel y'i trafodwyd yn ystod yr arolygiad.	Rheoliad Atodlen 2 1	6 Bydd hwn yn cael ei ychwanegu at y Weithdrefn Cyflogeion.	Radiograffydd Goruchwyliol / Arbenigwr Ffiseg Feddygol	30/06/22
Rhaid i'r ysbyty gadarnhau bod prosesau ar waith i ganiatáu i unrhyw aelod o staff adrodd ar unrhyw faterion sy'n peri pryder yn fewnol, yn ogystal â sicrhau bod unrhyw bryderon a leisir yn destun ymchwiliad ac ymateb priodol.	Safon 25 Arferion Recriwtio a Chyflogaeth y Gweithlu	Mae Polisiâu a Gweithdrefnau sydd wedi'u hen sefydlu ar waith ac ar gael i'r holl staff trwy SharePoint i'w galluogi i leisio unrhyw bryderon. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol: ➤ Polisi bwlio ac aflonyddu ➤ Polisi achwyn ➤ Polisi chwythu'r chwiban ➤ Polisi cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol Mae pob un yn amlinellu'n glir y camau y gellir eu cymryd i leisio unrhyw bryderon	Pennaeth Adnoddau Dynol	Cwblhawyd

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		ond hefyd yn nodi'r prosesau a fyddai'n cael eu dilyn pe bai unrhyw faterion yn cael eu lleisio'n ffurfiol. Mae'r polisïau hyn yn sicrhau bod unrhyw faterion o bryder a leisir yn cael sylw priodol. Mae swyddog Adnoddau Dynol llawn amser ar y safle sydd ar gael i staff siarad ag ef. Mae'r Ymddiriedolaeth Rheoli Gofal Iechyd hefyd yn rhedeg Clinigau Adnoddau Dynol ar 10 ac 11 Mai lle gall staff siarad yn uniongyrchol â'r Pennaeth Pobl ynghylch unrhyw bryderon os oeddent yn teimlo na allant wneud hynny â'u rheolwyr uniongyrchol ac uwch-reolwyr.		
Rhaid i'r ysbyty gadarnhau bod prosesau ar waith i sicrhau bod y staff yn cael eu trin yn deg ac yn gyfartal mewn perthynas â chyfleoedd yn y gweithle, ac na fydd unrhyw achosion o wahaniaethu yn cael eu goddef ac y bydd camau priodol yn cael eu cymryd.	Safon 25 Arferion Recriwtio a Chyflogaeth y Gweithlu	Mae'n ofynnol i bob aelod o staff gwblhau hyfforddiant Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ac mae ein disgwyliadau wedi'u nodi yn ein Polisi Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Hawliau Dynol. Mae'r Ymddiriedolaeth Rheoli Gofal Iechyd, (HMT) wedi ymrwymo i hyrwyddo	Pennaeth Adnoddau Dynol	Cwblhawyd

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		cydraddoldeb ac amrywiaeth a meithrin diwylliant sy'n rhoi gwerth ar wahaniaeth ac sy'n cydnabod y gall pobl o wahanol gefndiroedd a phrofiadau ddod â mewnwelediadau gwerthfawr i'r gweithle a gwella'r ffordd rydym yn gweithio. Mae HMT wedi ymrwymo i sicrhau bod pob aelod o staff ac ymgeisydd am swydd yn derbyn triniaeth gyfartal, waeth beth fo unrhyw nodweddion gwarchodedig megis oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, statws priodasol neu bartneriaeth sifil, beichiogrwydd neu famolaeth, hil, lliw, cenedligrwydd, tarddiad ethnig neu genedlaethol, crefydd neu gred, rhyw neu gyfeiriadedd rhywiol. Mae HMT yn cydnabod pwysigrwydd amrywiaeth a chynhwysiant yn y gweithle. Er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i annog a chroesawu amrywiaeth, rydym wedi cymryd camau i gefnogi		

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		hyrwyddwyr amrywiaeth ym mhob un o'r safleoedd. Mae'r holl staff yn cwblhau Arolwg Staff blynyddol ac mae Adnoddau Dynol yn goruchwyllo unrhyw gamau gweithredu gofynnol.		
Rhaid i'r ysbyty sicrhau bod yr holl staff wedi'u diweddarau â'r holl hyfforddiant gorfodol a gofynnol.	Safon Cynllunio'r Gweithlu, Hyfforddiant Datblygiad Sefydliadol	24 a Mae'r holl hyfforddiant yn cael ei gofnodi trwy blatfform e-Ddysgu Relias sy'n cael ei adolygu'n rheolaidd ac adroddir arno. Mae cwblhau hyfforddiant yn cael ei fonitro mewn dangosyddion perfformiad allweddol misol ac anfonir nodiadau atgoffa at Benaethiaid Adrannau i sicrhau bod hyfforddiant yn cael ei gwblhau.	Swyddog Cysylltiadau Pobl	Cwblhawyd